

**Ein Cynllun ar gyfer  
pob Plentyn a  
Pherson Ifanc 2019-  
22: Gwerthusiad.**

**Ebrill 2022.**



# Cynnwys

- 3 Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru
- 5 Nodyn ar y Gwerthusiad
- 7 Tu ôl i'r cynllun
- 10 Cymru – gwlad lle mae hawliau'n cael eu gwireddu
- 21 Dysgu, deall a phrofi eich hawl
- 28 Amcan gor-redol: Diogelu eich hawliau, ble bynnag rydych chi
- 39 Bod yn atebol i blant yng Nghymru

# Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

**Dyma ein gwerthusiad o'n Cynllun ar gyfer pob Plentyn a Pherson Ifanc, 2019-22. Yn y cynllun hwn fe wnaethon ni gyflwyno uchelgeisiau clir a fyddai'n cyfeirio gwaith y fîm i helpu i sicrhau newidiadau i blant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru. Ffurfiwyd yr uchelgeisiau hynny ar ôl gwrandao ar filoedd o blant trwy ein harolygon Llysgenhadon a Beth Nawr?, adolygiad tystiolaeth o'r wybodaeth genedlaethol ynghylch plant a phobl ifanc, a chyfarfodydd gyda llu o wasanaethau a sefydliadau sy'n cefnogi plant. Roedd y rhain yn allweddol i'n helpu i flaenoriaethu ein gwaith a gosod nodau strategol.**



Mae fy Nhîm a minnau'n mesur y gwaith rydyn ni'n ei wneud ac yn adrodd am ein hallbynnau bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad hwn yn fwy na myfyrio ar y gwaith rydyn ni wedi'i wneud fel sefydliad, mae hefyd yn gyfle i fesur y canlyniadau a gyflawnwyd trwy weithio tuag at y nodau a bennwyd gennym dair blynedd yn ôl.

Dydyn ni ddim wedi gallu cyflawni holl uchelgeisiau'r cynllun yn llawn, ond rydyn ni'n credu y gallwn ni ddangos cynnydd cyson yn erbyn pob un ohonynt, gyda hawliau a phethau newydd y dylen nhw eu derbyn yn cael eu sicrhau i blant, ynghyd â newid o ran cyfeiriad polisi a chyllido.

Uchafbwyntiau o'm safbwynt i oedd dileu Amddiffyniad Cosb Resymol, fel bod gan blant amddiffyniad cyfartal ag oedolion rhag niwed corfforol o dan y gyfraith, a'r newidiadau i gwricwlwm Cymru sy'n golygu y bydd pob plentyn yn dysgu am eu hawliau, ac y bydd pob aelod o staff yn cael eu hyfforddi i gefnogi eu hawliau. Ym maes iechyd a gofal cymdeithasol rydyn ni wedi helpu i sicrhau eithriad Treth y Cyngor i ymadawyr gofal, a thrwy gyflwyno pryderon o'n gwasanaeth gwaith achosion, gyllid ar gyfer llety 'diogel' i blant sydd ag anghenion iechyd meddwl a gofal cymdeithasol cymhleth. Mae sicrhau 'Dim Drws Anghywir' ar gyfer

cefnogaeth yn awr yn nod ar gyfer gwasanaethau plant i blant ag anghenion cymhleth ledled Cymru, er bod rhaid dweud bod tipyn o ffordd i fynd eto cyn bod pob plentyn yn profi hynny.

Rydyn ni a'n partneriaid hefyd wedi cyflawni newidiadau pwysig o ran hawliau dinesig i bobl ifanc, gyda datblygiad Senedd Ieuencid Cymru a gostwng oed pleidleisio i 16. Yn 2021, cafodd pobl ifanc 16 ac 17 oed ar draws Cymru gyfle i bleidleisio yn Etholiadau'r Senedd am y tro cyntaf erioed!

Pan gyhoeddod ni'r Cynllun yma yn 2019, allen ni ddim bod wedi dychmygu'r heriau byddai angen i ni eu hwynebu o fis Mawrth 2020 ymlaen. Fel pawb arall, mae ein fîm wedi gorfod addasu ac ymateb i Bandemig y Coronafeirws yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r holl waith yma wedi cael ei gyflwyno yn erbyn cefnlen un o'r cyfnodau mwyaf heriol, gyda'r fîm yn cyflawni'r cynllun gwaith uchelgeisiol hwn ochr yn ochr â sicrhau bod hawliau plant yn cael eu diogelu yng nghyfreithiau a rheoliadau'r Coronafeirws.

Mae hwn wedi bod yn gyfnod eithriadol o heriol, ond rwy'n falch o sut rydyn ni wedi gallu casglu data ynghylch profiadau plant a defnyddio hynny i ddyllanwadu ar benderfyniadau – nid mewn perthynas â'r Coronafeirws yn unig, ond ar faterion pwysig fel arholiadau a diwygio sut mae plant yn dysgu am ryw a chydberthynas. Mae fy Mhanel Ymgynghorol Pobl Ifanc wedi bod yn allweddol yn hyn i gyd, ac maen nhw wedi craffu a dylanwadu ar benderfyniadau ar hyd y cyfnod yma, er mwyn sicrhau bod lleisiau a phrofiadau plant wedi cael eu clywed yn uchel!

Gwaetha'r modd, mae llawer i'm holynydd ei wneud o hyd, ond bydd ganddi fy nhîm profiadol, gwybodus ac angerddol i'w chefnogi ar hyd y ffordd.

Sally

# Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae'r tîm wedi...

**20,000**

Gweithio gyda dros 20,000 o blant a phobl ifanc



**51,000**

Clywed gan dros 51,000 o blant a phobl ifanc drwy arolygon

**1,000**

Hyfforddi dros 1,000 o bobl broffesiynol am hawliau plant



**88**

Ymateb i 88 o ymgynghoriadau Llywodraethau Cymru a'r DU a'r Senedd

**1,500**

Sicrhau dros 1,500 o ddarnau yn y cyfryngau

**1,894**



Ymdrin â 1,894 o achosion drwy ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor

**148**

Cymryd rhan, ar gyfartaledd, mewn 148 o weithgorau bob blwyddyn

**553**


Ar gyfartaledd, denu 553 o ysgolion cynradd ac uwchradd i gofrestru am ein cynlluniau llysgenhadon



# Nodyn ar y Gwerthusiad

Yn 2019, fe wnaethon ni gyhoeddi [cynllun ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru](#). Roedd y cynllun hwn yn amlinellu ar beth bydden ni'n gweithio i wella cyfleoedd plant yng Nghymru mewn bywyd yn ystod y tair blynedd nesa.

Cyn i ni gyhoeddi'r cynllun, cynhaliodd Sally a'i thim ymgynghoriad Cymru gyfan gyda phlant ac oedolion. Digwyddodd hynny dros dri chyfnod rhwng Ebrill 2018 a Thachwedd 2018, gan gynnwys [arolwg cenedlaethol o ysgolion](#), ein harolwg [Beth Nawr?|What Now?](#) a gweithdai a chyfarfodydd gyda phlant ac oedolion. Hefyd cynhaliwyd [adolygiad tystiolaeth o ffynonellau data eraill](#).



Helpodd hyn i lywio [ein cynllun](#) ymlaen, wrth i blant a phobl ifanc a'r rhai oedd yn eu cefnogi nhw ddweud wrthyn ni beth oedd yn destun pryder iddyn nhw a pha welliannau hoffon nhw eu gweld. Ar sail hynny, fe wnaethon ni gyflwyno'r dyheadau canlynol, ac rydyn ni wedi bod yn gweithio i weld gwelliannau fel bod:

- gwasanaethau'n cydweithio i roi i blant a phobl ifanc [y gefnogaeth iechyd meddwl](#) mae arnyn nhw ei hangen, lle a phryd mae arnyn nhw ei hangen
- sefydliadau cyhoeddus o bob sector yn [rhoi blaenoriaeth i hawliau plant](#) wrth dylunio a chyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc
- pob plentyn yn [dysgu am eu hawliau mewn ysgolion](#), a phlant yn profi eu hawliau ym mhob lleoliad addysg, gan gynnwys y cartref
- y llywodraeth yn cymryd camau clir i [leihau tlodi plant a'i effaith](#)
- plant yn meddu ar [yr un amddiffyniad ag oedolion rhag cosb gorfforol](#)

“Rwy’n credu bod gwaith ac ymdrech Sally a’i thîm i sicrhau bod pobl ifanc ledled Cymru yn fodlon ar y pethau maen nhw’n eu derbyn wedi cael ei gynnal yn fedrus dros ben yn ystod y cyfnod y tystiais i iddo ar y panel. Yn achos arolwg ‘Coronafeirws a Fi’... rwy’n credu i ni dderbyn darlun cywir o deimladau pobl ifanc ar draws Cymru wrth i ni ddysgu am lawer o bethau allweddol a fyddai’n ein helpu yn ein hymdrechion i wneud i blant yng Nghymru deimlo’n hapus ac yn ddiogel, fel yr effaith mae’r Coronafeirws wedi’i chael ar iechyd meddwl llawer o bobl ifanc ledled Cymru, gan fod llawer yn gweld eisiau eu ffrindiau ac yn teimlo’n ddigon unig ar ddechrau’r cyfnod clo. Serch hynny, rwy’n teimlo, nid ein bod i gyd yn ôl ar y ffordd at normalrwydd, ond bod plant ledled Cymru yn dechrau teimlo’n fwy bodlon, oherwydd gwaith gwych y fim yn ystod y blynyddoedd cythryblus diwethaf. Hefyd roedd cyfarfodydd Sally gyda gweinidogion grymus Cymru yn dda iawn, gan fod hynny’n cyfleu barn pobl ifanc yn dda iawn, ac mae hynny’n hanfodol, gan fod angen i’r gweinidogion sylweddoli a deall beth rydyn ni, y bobl ifanc, eisiau ac angen...”


Wrth symud ymlaen, rwy’n credu bod angen i’r fim, er mwyn gwella, barhau i wneud beth mae’n ei wneud nawr, er mwyn creu hapusrwydd llawn ymhlith holl blant a phobl ifanc Cymru. Gwneud yn siŕ bod y myfyrwyr sydd yn awr yn teimlo dan bwysau gydag arholiadau oherwydd diffyg amser yn yr ysgol yn cael mwy o amser i ddal i fyny, astudio a dysgu.”

— Sylwadau gan aelod o’n panel ymgynghorol pobl ifanc.


Mae’r gwerthusiad hwn yn myfrio ar sut mae’r swyddfa wedi gweithio i gyflawni’r hyn a nodwyd yn ein cynllun tair blynedd. Cyflwynir hynny o dan bedair thema eang;




**Cymru – gwlad lle mae hawliau’n cael eu gwireddu**



**Dysgu, deall a phrofi hawliau**



**Diogelu eich hawliau ble bynnag byddwch chi**



**Bod yn atebol i blant yng Nghymru**


Er mwyn mesur ein cynnydd yn erbyn yr uchelgeisiau hyn, mae’r gwerthusiad wedi edrych ar y newidiadau a sicrhawyd ar gyfer pobl ifanc. Mae hynny’n cynnwys newidiadau i gyfreithiau a phethau y gellir eu hawlio, newidiadau i bolisiau neu ymrwymadau’r Llywodraeth, adnoddau a gwybodaeth a ddatblygwyd, digwyddiadau a phartneriaethau a sefydlwyd, a metreg ynghylch cwmpas ein gwaith.

# Tu ôl i'r cynllun


Mae'r pandemig wedi bod yn brif nodwedd yn ystod dwy flynedd o'n cynllun tair blynedd. Mae hynny wedi'n harwain i ganolbwyntio ar feithrin gwydnwch ein tîm a'r systemau o'n cwmpas i sicrhau ein bod wedi'n paratoi'n dda i herio, i gefnogi ymateb Cymru i'r pandemig, yn ogystal â chyflawni ein holl ymrwymïadau gwreiddiol a gwaith creiddiol.

Tîm bychan o staff ydym ni, gyda chylch gorchwyl Cymru-gyfan. Fel tîm o 23, rydyn ni am sicrhau ein bod yn mwyafu pob punt gyhoeddus a dderbyniwn i gyflawni newid gwirioneddol. Bob mis, mae fy nhîm rheoli yn adolygu effaith ac effeithiolrwydd ar draws y sefydliad, gan ddefnyddio cerdyn sgorio cytbwys.


Mae'r dull hwn yn ein galluogi i edrych ar ba mor effeithiol ac effeithlon ydyn ni ar draws 4 maes allweddol:




Prosesau sefydliadol



Pobl y Comisiynydd



Plant a Phobl Ifanc



Cynaliadwyedd Ariannol y Comisiynydd a Gwerth am Arian

Dyma rai uchafbwyntiau o'r tair blynedd diwethaf o'r pedwar cwadrant gwaith dan sylw:



### Prosesau Sefydliadol

- Dechreuodd [Fy Addewid Gymraeg](#), a gafodd ei ganmol gan Gomisiynydd y Gymraeg fel arfer da, ei oes ar ffurf syniad gan ein grŵp Hyrwyddwyr Llesiant. Roedd yn ymateb i effaith gweithio o bell yn 2020 ar gyfleoedd achlysurol i staff dwyieithog a dysgwyr Cymraeg ddefnyddio'u sgiliau iaith yn y gweithle.
- Buddsoddwyd yn ein seilwaith TG a mesurau seiberddiogelwch er mwyn sicrhau bod staff yn gallu gweithio'n ddiogel o bell.
- Sefydlwyd grŵp prosiect cydraddoldeb mewn ymateb i symudiad Mae Bywydau Du o Bwys (BLM) ac mewn ymgais i gymryd camau i amrywio ein sefydliad a'n cwmpas. Mae cynllun gweithredu ar y gweill, a chyhoeddwyd ymrwymiad cyhoeddus i'r gwaith hwn.
- Cyhoeddwyd ein [Cynllun Bioamrywiaeth](#).



### Pobl y Comisiynydd

- Daeth yn Gyflogwr Ymroddedig Hyderus ynghylch Anabledd
- Gwelwyd gostyngiad yn absenoldebau tymor byr y staff dros dair blynedd, a hynny er bod pandemig byd-eang yn ystod y cyfnod hwnnw.
- [Hyrwyddwyr Llesiant](#); aelodau staff ar draws y sefydliad sydd â diddordeb byw mewn llesiant yn y gweithle, ac sydd yn wir yn gofalu am eu cydweithwyr. Maen nhw wedi gweithio ar nifer o fentrau yn ystod y pandemig, ac wedi cynghori ynghylch creu cyfres newydd o bolisiau staff mewnol newydd, gan gynnwys: Polisi a Gweithdrefn newydd ar gyfer Gweithio Gartref a Pholisi newydd i Gefnogi pobl yn y gwaith os ydyn nhw'n profi cam-drin domestig.



### Plant a Phobl Ifanc

- Delion ni â mwy na 1,894 o achosion trwy ein gwasanaethau ymchwiliadau a chyngor annibynnol
- Ymgysyllton ni'n uniongyrchol â mwy na 20,000 o blant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru mewn amrywiaeth o leoliadau.
- Derbynon ni 51,000 o ymatebion i'n harolygon gan blant a phobl ifanc.
- Hyfforddon ni dros 1,000 o bobl ynghylch hawliau dynol plant.



### Cynaliadwyedd Ariannol y Comisiynydd a Gwerth am Arian

- Dalion ni ati i fod yn gyflogwr Cyflog Byw.
- Gostyngon ni ôl troed y swyddfa 63%.
- Fe wnaethon ni leihau lefel uchel y cronfeydd ariannol wrth gefn yn systematig.
- Mae'r costau teithio a chynhaliadwy wedi mwy na haneru ers 2015 (gydag arbedion sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn cyfyngiadau pandemig Covid-19).
- Fe wnaethon ni gyflawni ein holl waith prosiect a chwblhau'r holl waith ychwanegol mewn ymateb i'r pandemig yn ystod y tair blynedd diwethaf am £315,000 = tua £0.34 am bob plentyn yng Nghymru.



## Sbotolau: Arolwg staff


Bob tair blynedd rydyn ni'n gwahodd pob aelod o staff i gymryd rhan mewn arolwg staff. Mae'n cyffwrdd â phob agwedd ar fywyd gwaith yn swyddfa'r Comisiynydd, gan gynnwys: llwyth gwaith ac adnoddau, rheolwyr llinell, amcanion a phwrpas y sefydliad, cynhwysiad a thriniaeth deg, arweinyddiaeth, gwybodaeth am y staff, cydweithwyr fîm, cydweithwyr yn y fîm ehangach, cyflog a buddion, diogelwch ac urddas yn y gwaith, dysgu a datblygu a chyfathrebu mewnol. Fe gawson ni gyfradd ymateb o 81% i'n harolwg diweddaraf, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2021, o gymharu â chyfradd ymateb o 82% yn 2018.

### Dyma rai o'r uchafbwyntiau:


Roedd 4 adran – arweinyddiaeth, cydbwysedd gwaith-bywyd, cyfathrebu ac amcanion sefydliadol – wedi gwella ers yr arolwg blaenorol.

Roedd 6 adran – rheolwyr llinell, cydweithwyr uniongyrchol, cynhwysiad a thriniaeth deg, staff, cyflog a buddion a diogelwch ac urddas – i gyd wedi parhau'n sefydlog ers yr arolwg blaenorol..


Am y tro cyntaf, ac mewn ymateb i newidiadau mawr yn ein ffordd o weithio oherwydd lleoliad newydd y swyddfa ac effaith pandemig Covid-19, fe wnaethon ni gynnwys adran benodol ar sut roedd y sefydliad yn ymateb i newid. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:




Roedd 86% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y symudiad i D Llewyn wedi cael ei reoli'n dda gan y sefydliad



Roedd 86% o'r ymatebwyr yn cytuno bod yr ymateb i'r pandemig, gan gynnwys gweithio gartref, wedi cael ei reoli'n dda



Roedd 81% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth briodol gan CPC yn ystod y pandemig



Roedd 90% o'r ymatebwyr yn teimlo'n optimistig ynghylch dyfodol ein fîm

# Cymru – gwlad lle mae hawliau'n cael eu gwireddu



Yn 2019, fe gyflwynon ni'r uchelgeisiau canlynol, sef bod Cymru'n dod;

1

yn wlad lle mae gwasanaethau'n cydweithio i roi cefnogaeth un stop, 'dim drws anghywir' i blant a phobl ifanc ar gyfer iechyd meddwl a llesiant.

2

yn wlad lle mae sefydliadau cyhoeddus o bob sector, gan gynnwys iechyd, awdurdodau lleol, yr heddlu, chwaraeon, y celfyddydau a hamdden yn rhoi blaenoriaeth i hawliau plant wrth ddylunio a chyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

3

yn wlad sy'n falch o grisialu hawliau dynol plant yn ei chyfreithiau a'i pholisïau.



## Dyma sut rydyn ni wedi gweithio i gyflawni hynny.



### Cymru: gwlad lle mae gwasanaethau'n cydweithio i roi cefnogaeth un stop, 'dim drws anghywir', i blant a phobl ifanc ar gyfer iechyd meddwl a llesiant.

- Yn 2020, ar ôl ymweld â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Cymru, fe wnaethon ni gyhoeddi [Adroddiad Dim Drws Anghywir](#), oedd yn galw am integreiddio gwasanaethau cymdeithasol a iechyd yn well i gefnogi plant ag anghenion cymhleth.
- Yna fe wnaethon ni ddefnyddio [Adroddiad Blynyddol 2019/20](#) i alw am weithredu ar frys gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu llety ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.
- Fe wnaethon ni barhau i lobio am gynnydd wrth gwrrd ag Aelodau'r Senedd, Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'u Swyddogion, a chydweithwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fel rhan o'n gwaith craidd.
- Yn 2021, [cyhoeddodd](#) Llywodraeth Cymru £2,800,000 ar gyfer gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth
- F-e fuon ni'n gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a T4CYP i ddatblygu eu [Fframwaith NYTH/NEST](#) ar gyfer BPRhau – dull gweithredu system gyfan yw hwn ar gyfer iechyd a llesiant, ac mae'n cynnwys ein Dull Gweithredu Dim Drws Anghywir.
- Yn 2021, fe wnaethon ni ymweld â phob BPRh eto i asesu eu cynnydd o ran eu dull gweithredu Dim Drws Anghywir, a chyhoeddi'r [adroddiad dilynol yma](#). Fe wnaethon ni gynnal dwy sesiwn gyda phobl ifanc i lywio'r gwaith yma.
- Yn 2021, cyflwynodd [Cytundeb Plaid-Llafur](#) gynlluniau i ddatblygu noddfeydd ar gyfer pob Person Ifanc mewn Argyfwng Iechyd Meddwl – rhywbeth yr oedden ni wedi galw amdano wrth lansio [Adroddiad Blynyddol 2020/21](#).

**Mae ein Tim Ymchwiliadau a Chyngor wedi ymwneud â nifer o achosion lle nad yw gwasanaethau wedi gweithio er lles pennaf plant, gydag anhawster cael hyd i ffordd trwy brosesau a rhestrau aros.**

**Mae'r achosion lle buon ni'n cyngori neu'n ymyrryd yn codi materion fel pobl ifanc yn cael eu pasio o un gwasanaeth i un arall ac yn ôl eto, pobl ifanc yn cael atgyfeiriadau i wasanaethau lluosog, ond yn clywed gan bob un ohonyn nhw eu bod nhw ddim yn bodloni'r meini prawf, a phobl ifanc yn aros yn hir am wasanaeth er bod ganddyn nhw broblemau aciwt.**

**Yr achosion hyn oedd sylfaen ein gwaith yn y maes yma ac yn tystio i'r angen am newid.**



## O ganlyniad i'r gwaith yma:

- Mae gan bob BPRh is-grŵp i gynllunio ar gyfer plant;
- Mae gan bob BPRh gynllun ar gyfer Dull Gweithredu Dim Drws Anghywir.
- Mae pob rhanbarth dan ddyletswydd i gynnwys plant a phobl ifanc trwy gyfranogiad.
- Mae cynlluniau gwell i gefnogi plant a phobl ifanc mewn argyfwng iechyd meddwl a chynlluniau datblygedig ar gyfer llety preswyl i blant ag anghenion cymhleth, ond mae'r rhain heb eu gweithredu'n llawn eto.
- Mae ffordd bell i fynd o hyd i roi'r cynlluniau a'r newidiadau pwysig hyn ar waith. Er bod cynlluniau yn eu lle, nid yw'r opsiynau llety wedi cael eu datblygu'n llawn eto. Mae plant yn dal i fedru cael eu lleoli'n bell o'u cartref pan fydd angen cefnogaeth arbenigol arnynt, ac nid oes gwasanaethau cyson ar gael i atal argyfwng.



## Cymru: gwlad lle mae sefydliadau cyhoeddus o bob sector, gan gynnwys iechyd, awdurdodau lleol, yr heddlu, chwaraeon, y celfyddydau a hamdden yn rhoi blaenoriaeth i hawliau plant wrth ddylunio a chyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

• Roedd [Ein Cynllun ar gyfer 2019-22](#) yn nodi y bydden ni'n gweithio gyda chyrrff cyhoeddus, gan gynnwys byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, awdurdodau lleol a'r heddlu i sicrhau eu bod yn defnyddio hawliau plant i lywio'u gwaith gyda phlant, gan ddefnyddio ein fframwaith dull gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant, [Y Ffordd Gywir](#).

### Er mwyn cyflawni hyn rydyn ni wedi...

- Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus pwysig i'w helpu i roi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith. Mae hyn yn cynnwys;
  - Cyfoeth Naturiol Cymru
  - Holl Heddluoedd Cymru
  - Yr Holl Fyrddau Iechyd
  - Awdurdodau Lleol
  - Lleoliadau Cystodaeth Ieuentid
  - Gwasanaethau Troseddau Ieuentid
  - Uned Atal Trais Cymru
  - Timau Troseddau Ieuentid Cymru
  - Trafnidiaeth i Gymru
  - Cymdeithas Chwaraeon Cymru
- Fe wnaethon ni gynnal amrywiaeth o seminarau sector benodol, i helpu sefydliadau i rannu dysgu ynghylch dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant. Bellach rydyn ni'n cynnal Seminar Iechyd a Hawliau Plant flynyddol a Seminar ar Hawliau Plant ym maes Cyfiawnder Ieuentid a Phlisma. Fe wnaethon ni greu [Hwb Hawliau](#) ar ein gwefan i helpu sefydliadau i ddysgu oddi wrth ei gilydd a rhannu adnoddau.

- Caiff materion polisi sy'n dod i'r amlwg eu trafod yn y Seminarau. Yn 2021, fe wnaethon ni ddefnyddio'r Seminar Cyfiawnder Ieuentid i gynyddu ymwybyddiaeth o'r angen am Ddull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer Plismona, a Phrotocol Cenedlaethol i leihau Troseddoli Diangen Plant mewn Gofal, ar y cyd â chydweithwyr yn NYAS a 4C's. Rydyn ni wedi bod yn galw am ddatblygu'r rhain yn ein [Hadroddiadau Blynyddol](#).
- Ers cynnal y seminarau blynyddol hyn mae llawer o fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd wedi sefydlu mecanweithiau ar gyfer gwranddo a bod yn atebol i blant a phobl ifanc, wedi cynhyrchu Siartrau Plant ar y cyd â phlant a phobl ifanc, ac wedi cynhyrchu adnoddau ar y cyd â phlant a phobl ifanc, megis gwefannau i gefnogi iechyd meddwl a llesiant, ac adroddiadau blynyddol sy'n wynebu'r plentyn.
- Rydyn ni hefyd yn hybu egwyddorion cyfranogiad, grymuso ac atebolrwydd, gan fod pobl ifanc yn gofyn cwestiynau i lechyd, yr Heddlu, y Llywodraeth a sefydliadau cyhoeddus yn ystod y Seminarau ynghylch cyflwyno'r gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio.

**“Pam gallwn ni ddim cael safle [YOI] yng Nghymru lle mae'r holl bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn cael eu lleoli?”**

**“Dylai plant gael eu cludo mewn ceir heddlu, nid mewn caets yng nghefn fan – oes modd i hyn newid?”**

Cwestiynau gan bobl ifanc yn ein Seminar Cyfiawnder Ieuentid a Phlismona.

Mae'r seminar iechyd blynyddol a'r seminar hawliau plant ym maes cyfiawnder ieuentid a phlismona yn darparu lle i wasanaethau rannu arfer gorau a thrafod materion sy'n destun pryder. Rydyn ni'n rhannu'r [enghreiffiau hyn ar ein hwb hawliau](#).

**“ [Rydw i'n] meddwl bod hwn yn fforwm gwych ar gyfer rhannu syniadau, arfer da, cysylltiadau. Weithiau yr her yw cael hyd i'r bobl iawn i siarad â nhw... Fe wnes i fwynhau heddi a chael fy ysbrydoli. Roedd yn bendant yn helpu fi i ailffocysu!”**

– Cyfranogwr yn y Seminar Hawliau Plant ym myd lechyd.



## **Cyhoeddwyd y Protocol i Leihau Troseddoli Diangen Plant mewn Gofal ym mis Mawrth 2022, a bydd yn golygu bod gofyn i'r gwasanaethau hynny sy'n cefnogi plant mewn gofal sicrhau bod ganddynt drefniadau cadarn ar waith i osgoi a lleihau troseddoli diangen.**

- Rydyn ni wedi parhau i ddatblygu [adnoddau](#) i helpu sefydliadau eraill i ddysgu am hawliau plant. Yn 2019, fe wnaethon ni nodi pen-blwydd CCUHP yn 30 trwy ddiweddarau ein Bathodyn Hawliau i Sgowntiaid a Geidiau a lansio adnoddau newydd ar hawliau plant ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
- Yn 2021, fe gyhoeddon ni [Y Ffordd Gywir Gofal Cymdeithasol](#), a gynhyrchwyd ar y cyd â phlant a phobl ifanc, gweithwyr proffesiynol a Gofal Cymdeithasol Cymru. Lluniwyd y canllaw hwn i gefnogi'r rhai sy'n gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol i wreiddio hawliau yn eu gwasanaethau a'u hymarfer pob dydd. Daeth bron 300 o bobl o bob rhan o sector gofal cymdeithasol Cymru i'r lansio rhithwir!
- Rydyn ni hefyd wedi dylanwadu ar Lywodraeth Cymru i wreiddio hawliau plant ymhellach. Cyflwynon ni hyfforddiant i Swyddogion [ac mae Cynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru](#) bellach wedi'i seilio ar bum egwyddor Y Ffordd Gywir. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau i [Staff y Llywodraeth ar hawliau](#).
- Mae Y Ffordd Gywir wedi cael ei hyrwyddo'n rhyngwladol. Mae [Datganiad Sefyllfa](#) Rhwydwaith Ewrop o Ombwdsmyr Plant yn defnyddio'r egwyddorion i gyflwyno argymhellion ar gyfer ymatebion cenedlaethol a rhyngwladol i argyfyngau cyhoeddus yn y dyfodol. Ochr yn ochr â hyn cafwyd [adroddiad synthesis](#) manwl sy'n cyfeirio at y pum egwyddor a nodwyd gennym fel rhan o Ddull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant.
- Gyda chymorth myfyriwr PhD o Brifysgol Caerdydd, rydyn ni wedi gwerthuso [Y Ffordd Gywir](#). Trwy gyfres o weithdai gyda sefydliadau cyhoeddus sy'n defnyddio Fframwaith Y Ffordd Gywir, mae'r gwerthusiad wedi cynnig nifer o argymhellion pwysig i'n helpu ni a'r Llywodraeth i wreiddio'r Ffordd Gywir ymhellach yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru er mwyn bod o gymorth pellach i wireddu hawliau i blant yng Nghymru.



## Rydyn ni wedi parhau i hyfforddi sefydliadau ynghylch hawliau plant fel rhan o'n gwaith craidd. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Yn 2019, fe gyflwynon ni hyfforddiant hawliau plant i dadau yn HMP Berwyn. Buon ni'n gweithio gyda'r staff addysg yng Ngwasanaeth Cyflawniad Addysg (EAS) De-ddwyrain Cymru yn 2019 i ddatblygu adnoddau peilot. Fe gyflwynon ni hyfforddiant ar hawliau plant ac egwyddorion dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant i'r corff cyfan o staff yn Cymwysterau Cymru, fel rhan o Ddiwrnod Cyflogeion Cymwysterau Cymru.
- Yn 2020, buon ni'n gweithio gydag Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru i lunio sgrïpt 999 ar gyfer galwyr o dan 18 oed.
- Yn 2020, cyflwynon ni sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwr' ar hawliau plant gyda holl arweinwyr Consortia Addysg Cymru.
- Yn 2021, cyflwynon ni hyfforddiant hawliau i staff addysg newydd gymhwyso yng Nghonsortium GWE Gogledd Cymru.
- Yn 2021, darparon ni hyfforddiant i arolygwyr ESTYN er mwyn cadw hawliau fel ffocws wrth ymchwilio i aflonyddu rhywiol mewn ysgolion.
- Yn 2021, cynhalion ni sesiynau hawliau yn Nigwyddiadau Diwrnod Chwarae'r Urdd yng Nghonwy, Merthyr a RhCT, a dylanwadon ni ar y Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar gyfer Chwarae.
- Rydyn ni wedi bod yn gweithio gydag Arweinwyr Cenedlaethol yr Heddlu i gynghori ar Ddull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Plismona Hawliau Plant, ac rydyn ni wedi gweithio gyda Heddluoedd Dyfed Powys a De Cymru i ddatblygu siartrau hawliau plant.
- Yn 2022, cyflwynon ni hyfforddiant hawliau i Reolwyr Gwasanaeth Troseddau Ieuentid Cymru Gyfan, ac arweinwyr nifer o gymdeithasau chwaraeon cenedlaethol Cymru.
- Buon ni'n gweithio gydag Ambiwlans Sant Ioan i greu pecynnau gweithgaredd ar hawliau plant i'w grwpiau Moch Daear a Chadetiaid, er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc i barhau i ddysgu am eu hawliau plant.

## Spotolau: Prosiect Pleidlais

Yn 2020-21, fe gynhalion ni etholiad paralel unigryw ar yr un pryd ag etholiad Senedd Cymru ym mis Mai 2021, a sicrhau bron 10,000 o bleidleisiau o bob rhan o Gymru – sy'n golygu bod mwy nag 1 o bob 20 person ifanc 11-15 oed yng Nghymru wedi cymryd rhan.

Roedd ein pecyn o gymorth i ysgolion yn cynnwys:

- Gwersi a deunyddiau dwyieithog, rhyngweithiol a hygyrch, parod i'w cyflwyno er mwyn dysgu am y Senedd ac etholiadau.
- Gweminarau am ddim i bobl ifanc, gan gynnwys sesiwn 'Marw i Bleidleisio' ynghylch hanes pleidleisio gyda'r Athro Laura McAllister.

**“Mae gan y myfyrwr lawer mwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth, ac maen nhw'n cwestiynu'r syniad y dylech chi bleidleisio dros yr un person a'ch rhieni. Mae wedi bod yn eithriadol o rymus o safbwynt rhoi cyfrifoldeb cymdeithasol iddyn nhw a gweld gwerth pleidleisio.”**

**“Cipolwg ffres ar wleidyddiaeth i'm pobl ifanc 14/15 oed. Roedden nhw'n gallu teimlo'n bwysig a'u bod yn cael eu clywed.”**

Mae'r gefnogaeth aruthrol gan ysgolion ledled Cymru gyda'r prosiect hwn wedi helpu llawer o bobl ifanc i ddysgu am eu hawliau dinesydd a'u datblygu, ac i gael eu clywed a'u gwranddo gan bleidiau gwleidyddol Cymru.



## Spotolau: Coronafeirws a Fi

Doedd ymateb i hawliau plant ledled Cymru yn ystod pandemig byd-eang, addasu i hynny a diogelu hawliau plant ledled Cymru ddim yn rhywbeth roedden ni wedi dychmygu fyddai'n digwydd pan fuon ni'n datblygu ein cynlluniau yn 2019. Fe ddewiswn ni gadw at ein cynllun gwaith cyfredol, ond fe wnaethon ni addasu er mwyn sicrhau;

1. Bod plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael gwrandawriad;
2. Bod plant a theuluoedd yn derbyn gwybodaeth glir a dibynadwy;
3. Ein bod yn helpu'r llywodraeth a gwasanaethau eraill i glywed am blant ac ymateb iddyn nhw.

### O fis Mawrth 2020 fe wnaethon ni'r canlynol;

- Datblygu ein [Hwb Gwybodaeth Coronafeirws](#) er mwyn helpu i rannu diweddariadau, rheoliadau newydd a chanllawiau;
- Cynnal dau arolwg Coronafeirws a Fi i blant a phobl ifanc 3-18 oed ym mis [Mai 2020](#) a mis [Ionawr 2021](#), gan gyhoeddi adroddiadau manwl ar brofiadau ardddegwyr, plant ag anableddau a phlant o gefndir ethnig amrywiol;
- Cynnal arolwg gyda Phenathiaid ysgolion a cholegau ynghylch anghenion digidol eu myfyrwyr;
- Cefnogi pobl ifanc i holi'r Gweinidog Addysg;
- Parhau i gefnogi plant a phobl ifanc a theuluoedd a'n Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor;
- Lobio dros gynnal dyletswyddau pwysig o ran plant, ac ystyried hawliau wrth ddatblygu canllawiau
- Cyhoeddi adroddiadau ym mis [Medi 2020](#) a mis [Medi 2021](#) ynghylch beth roedden ni wedi'i wneud yn ystod y cyfnodau hyn i ddogelu hawliau plant.

Bu ein gwaith o gymorth i amlygu'r amrywiaeth aruthrol o brofiadau a gafodd plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig. Mae pobl ifanc wedi wynebu ansicrwydd sylweddol ym myd addysg a dysgu, ac wedi profi unigrwydd a phryderon. Mae llawer wedi teimlo'n rhwystredig ynghylch effeithiau'r pandemig, ac mae'n bosib bydd y rhwystredigaeth honno'n parhau yng nghyswllt eu bywydau a'u cyfleoedd. Trwy roi platfform cadarn i blant a phobl ifanc, a chyfleoedd lawer i rannu eu barn a'u profiadau, mae plant wedi helpu i ffurfio sut mae'r Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i'r pandemig, ac maen nhw wedi helpu i'n llywio mewn modd pwysig ynghylch sut gall Cymru gefnogi pobol ifanc wrth i ni ymadfer.

## Spotolau: Haf o Hwyl

Yn dilyn yr wybodaeth gyfoethog roedd pobl ifanc wedi'i rhannu gyda ni ynghylch sut roedd y Coronafeirws wedi effeithio ar eu bywydau, fe wnaethon ni ymuno â'r Urdd a Chwaraeon Cymru i gynyddu'r angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn cyfleoedd hygyrch, di-dâl i holl blant Cymru chwarae, bod yn rhan o chwaraeon a'r celfyddydau a gweithgareddau awyr agored eraill. .

Fe wnaethon ni sicrhau £5m o gyllid gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yr holl bobl ifanc o bob oed yng Nghymru yn cael mynediad i ddarpariaeth ddi-dâl o safon uchel ar hyd yr haf.

**Yn dilyn gwerthusiad annibynnol o'r cynllun hwn;**

– Roedd y rhaglen wedi cyrraedd 67,500 o blant;

– Dywedodd 99% o'r plant eu bod wedi cael hwyl!

– Croesawodd cymunedau'r cyllid, a buon nhw'n datblygu perthnasoedd gyda phlant a theluoedd newydd.

Nododd y gwerthusiad yr angen am ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer grwpiau hŷn o bobl ifanc, rhai ag ADY ac anabledd, a gwella'r hyn mae darpariaeth Gymraeg yn ei gynnig.

Gan fod y gweithgareddau 'bron yn ddieithriad yn cael derbyn cadarnhaol', mae lefel uchel o ddisgwyl y bydd y rhaglen hon yn cael ei hailadrodd yn y blynyddoedd sy'n dilyn. Roedden ni'n falch o weld bod cyllid pellach wedi cael ei ddarparu ar gyfer gweithgareddu Gaeaf Llawn Lles yng ngaeaf 2021/2 a bod [£7miliwn arall wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer haf 2022 gan Lywodraeth Cymru](#). Wrth i ni barhau i wynebu ansicrwydd o ganlynad i'r pandemig, mae'n bwysig bod gwasanaethau cyhoeddus yn cydnabod gwerth cynlluniau cyfoethogi ar gyfer pobl ifanc wrth i ni ymadfer a pharhau â'r buddsoddiad pwysig hwn.



## Trwy ein gwaith craidd fe fuon ni'n rhoi pwysau ar sefydliadau cyhoeddus i ystyried hawliau plant wrth ddylunio a chyflwyno gwasanaethau. O ganlyniad i hynny, gwelson ni addewidion pwysig yn cael eu gwneud i blant, fel;

- Cyn Etholiad 2021 fe wnaethon ni gyhoeddi [ein Maniffesto ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru](#). Fe ofynnwn ni i'r holl bleidiau gwleidyddol ymrwymo i ddileu elw o wasanaethau gofal cymdeithasol i blant yn eu maniffestos. Wedi i Lywodraeth Lafur Cymru gael ei hethol, fe wnaethon nhw nodi yn eu Rhaglen Lywodraethu y bydden nhw'n ymrwymo i ddileu'r elfen o elw o wasanaethau gofal i blant. Rydyn ni'n parhau i gyflwyno achos cryf dros hawliau plant yng ngrwpiau Cyflawni Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i gyflawni'r uchelgais polisi hwn.
- Rydyn ni'n parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i ddatblygu Siarter Rhianta Corfforaethol ar gyfer y Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru. Rydyn ni'n parhau i withio am seilio'r siarter hon ar hawliau, gan nodi'n glir beth dylai plant mewn gofal ac ymadawyr gofal fedru ei hawlio o ran y gefnogaeth a'r gwasanaeth maen nhw'n disgwyl eu derbyn. Rydyn ni hefyd yn falch bod y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn gweithio i ddatblygu Siarter i Ofalwyr, a fydd yn berthnasol i oedolion a phlant sydd â chyfrifoldebau gofalu.
- Rydyn ni'n parhau i fonitro a chraffu ar Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant Llywodraeth Cymru, ac yn rhoi beirniadaeth adeiladol arnynt, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n ystyried hawliau plant yn llawn.



## Cymru: gwlad sy'n falch o grisialu hawliau dynol plant yn ei chyfreithiau a'i pholisïau.

• Rydyn ni wedi gweithio gyda'r Llywodraeth ar gyfleoedd i estyn hawliau plant yn y gyfraith, gan gynnwys trafod ymgorffori CCUHP ymhellach yng nghyfraith gwlad Cymru. Mae hynny wedi cynnwys

### Yn 2019

Bu'r Swyddfa'n rhan o 'Grŵp Llywio Cryfhau a Hybu Cydraddoldeb a Hawliau Dynol' Llywodraeth Cymru'. Rhoeson ni dystiolaeth i [Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Hawliau Plant](#) oedd yn cynnwys galw am ymgorffori CCUHP ymhellach yn uniongyrchol yng nghyfraith Cymru, ochr yn ochr â galwadau eraill fel mecanweithiau cwynion gwell ar gyfer plant sy'n teimlo eu bod heb dderbyn eu hawliau.

### Yn 2020

Dalio ni ati i fonitro safon ac effeithiolrwydd Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIAs) ac rydyn ni wedi annog gwasanaethau cyhoeddus i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn gyda'r Ffordd Gywir.

### Yn 2021

Fe wnaethon ni sicrhau dyletswydd hawliau yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Mae'r gyfraith yn creu dyletswydd newydd sy'n golygu bod angen i bob aelod o staff ysgol sy'n ymwneud â dysgu'r cwricwlwm ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am CCUHP a CCUHPA.

Mae addysg hawliau dynol hefyd yn thema sy'n croesdorri'r cwricwlwm newydd, ac wedi'i hintegreiddio i'r disgrifiadau o ddysgu yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Rhoddodd ein tîm fewnbwn sylweddol wrth ddraffio'r dogfennau hyn. Mae hynny'n golygu y bydd pob plentyn a pherson ifanc yn dysgu am eu hawliau.

I gefnogi gweithredu'r dyletswyddau newydd yn y Cwricwlwm, fe wnaethon ni ddiweddarau ein canllawiau Y Ffordd Gywir i Addysg ym mis [Mawrth 2022](#).

Rydyn ni wedi cwrdd â Thwrnai Cyffredinol Cymru a Gweinidogion eraill i drafod ymgorffori CCUHP yn llawn, ac anghysondebau ym mhwerau cyfreithiol a chylch gorchwyl y Comisiynydd Plant. Rydyn ni wedi gofyn am adolygu a diweddarau'r ddeddfwriaeth i ddiogelu holl hawliau plant. Rydym wedi ymgymryd a siarad o fewn cyfarfodydd yn ogystal a chyfathrebu yn ysgrifenedig gyda Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn trafod y camau nesaf o ran yr egwyddor o ymgorffori'r CCUHP yn llawn.

Rydyn ni wedi gweithio i gefnogi gweithrediad y ddyletswydd hawliau plant yn y Ddeddf ADY.



## Fe wnaethon ni adrodd ar gynnydd Cymru a'i hymrwymiad i hawliau plant:

- Ym mis Tachwedd 2019 [fe wnaethon ni gyhoeddi dogfen](#) ar y cyd â'n cymheiriaid yn y Deyrnas Unedig oedd yn asesu sut mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi gwneud cynnydd tuag at sicrhau bod pob plentyn yn derbyn y cyfleoedd a'r amddiffyniadau a grisialir yn CCUHP ers adolygiad diwethaf Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn o gynnydd y Deyrnas Unedig yn 2016.
- Cododd yr adroddiad rai o'r materion allweddol i bobl ifanc;
  - Yr angen am gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant
  - Bod angen i Lywodraethau weithredu ynghylch argyfwng yr hinsawdd
  - Bod angen i Lywodraethau wneud mwy i amddiffyn plant rhag trais a chamwahaniaethu
- Mae'r Pwyllgor bellach wedi cyhoeddi eu rhestr o faterion ac rydyn ni'n falch o weld bod llawer o'r materion godwyd gennym ni i'w gweld yn yr adroddiadau.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig i ymateb yn ffurfiol i'r argymhelliad erbyn Mehefin 2022.

# Dysgu, deall a phrofi eich hawl

# 2

**Yn 2019, fe nodon ni ein bod ni am sicrhau bod plant a phobl ifanc ar draws Cymru yn cael addysg gynhwysol, seiliedig ar hawliau. Fe gyflwynon ni'r uchelgeisiau canlynol, sef bod Cymru yn dod;**

1

**yn wlad lle mae pob plentyn yn dysgu am eu hawliau yn yr ysgol.**

2

**yn wlad lle mae plant nid yn unig yn dysgu am eu hiechyd meddwl a'u llesiant, ond yn cael eu cefnogi gan bawb o'u cwmpas yn yr ysgol i dyfu i fyny'n hapus ac yn iach.**

3

**yn wlad y mae ei llywodraeth wedi cymryd camau newydd i leihau tlodi plant a'i effaith.**



## Dyma sut rydyn ni wedi gweithio i gyflawni hyn.



## Cymru: gwlad lle mae pob plentyn yn dysgu am eu hawliau mewn ysgolion

### • Darpariaeth EOTAS: hybu a diogelu hawliau.

Trwy dueddiadau a nodwyd yn ein Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor, roedden ni'n pryderu am gysondeb safon y ddarpariaeth EOTAS. Er bod enghreifftiau o arfer da, roedd lleoliadau yn ein hachosion yn methu â chyrraedd y safon o ran darpariaeth. Yn 2019, fe wnaethon ni [gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a llafar](#) ar gyfer Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'r ddarpariaeth EOTAS. Fe wnaeth y swyddfa gyfrannu hefyd at adolygiad o drefniadau comisiynu EOTAS awdurdodau lleol a 'hannu'r dystiolaeth a dderbyniwyd trwy waith achosion a chyfranogol gyda'r Panel Arbenigol Ailddychmygu Addysgu. Ar ben hynny, cyfrannodd swyddfa'r Comisiynydd at ddigwyddiad bord gron ar eithrio a arweiniwyd gan Samariaid Cymru.

- Yn 2019, fe fuon ni'n gweithio'n agos gydag ysgolion, partneriaid a Llywodraeth Cymru i ddatlu 30 mlynedd o'r Confensiwn Hawliau Plant, ar 20 Tachwedd 2019.
- Mae Tîm Cyfranogiad CPC wedi cynhyrchu adnoddau misol a gweithgareddau i helpu ysgolion i hyrwyddo hawliau CCUHP, gyda [Hawl y Mis](#).
- Fe wnaethon ni barhau â'n Cynllun Llysgenhadon i helpu plant i ddysgu am eu hawliau. Fel rhan o hyn, fe wnaethon ni'r canlynol:
  - Estyn y cynllun i [leoliadau blynyddoedd cynnar](#), gyda'n prosiect Bitw Bach ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, a chyflwyno hyfforddiant i'r Mudiad Meithrin i helpu ymarferwyr blynyddoedd cynnar i ddysgu am hawliau
  - Datblygu gwybodaeth ac adnoddau ar hawliau i rieni.
  - Yn 2022 bydd adnoddau'n cael eu lansio ar y cyd â'r Mudiad Meithrin, ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant o dan 4 oed. Crëwyd yr adnoddau hyn fel ymateb uniongyrchol i gwestiynau gan weithwyr proffesiynol yn y sector oedd eisiau gwella eu hymgysylltiad hawliau plant â'r garfan oed ifanc.
  - Fe ddalio ni ati i gynnal digwyddiadau Llysgenhadon, gyda chyfuniad o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Ers 2020, rydyn ni wedi ymgysylltu â 104 o ysgolion a 786 o blant a phobl ifanc. Hefyd fe wnaethon ni gynnal gweithdai yn Wythnos Llesiant Merthyr Tudful.

### • AMPLIFY: Adolygu Cyngorau Ysgol

Roedden ni am edrych yn fanwl ar safon cyfranogiad plant o ran penderfyniadau mewn lleoliadau ysgol. Gan weithio gydag aelodau o'n panel ymgynghorol, fe wnaethon ni ddatblygu arolygon ar gyfer ysgolion a llywodraethwyr a derbyn 7764 o [ymatebion arolwg](#) gan 98 o ysgolion. Bu'r Comisiynydd hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc i ddatblygu canllaw actifyddiaeth ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc, [Gwneud Gwahaniaeth: Canllaw Person Ifanc i Weithredu](#).

Yna fe wnaethon ni gyhoeddi [ein hadroddiad](#) gyda chefnogaeth ein Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc ynghylch effeithiolrwydd cyngorau ysgol, ynghyd â llu o adnoddau i ysgolion i helpu plant a phobl ifanc i gyflawni eu hawliau i leisio barn ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnyh nhw a chael cyfle i rannu eu barn a chael gwrandawriad.

- **Rydyn ni wedi gweithio i wella ymwybyddiaeth plant o hawliau digidol;**

Yn 2019, fe fuon ni'n gweithio gyda Sefydliad 5 Rights i [gynhyrchu fersiwn hwylus i blant o Sylw Cyffredinol 25](#) (hawliau plant yn yr amgylchedd digidol). Hefyd fe wnaethon nhw gyfieithu'r deunyddiau i'r Gymraeg o ganlyniad, a chynhyrchu fideo hygyrch yn ogystal!

Fe fuon ni'n cymryd rhan yn y Rhwydwaith Ewropeaidd o Ymgynghorwyr Ifanc (ENYA) – prosiect cyfranogiad blynyddol sy'n cynnwys plant o bob rhan o Ewrop. Yn 2019, fe fuon ni'n gweithio gydag 16 o ddisgyblion o Ysgol Gyfun Gŵyr i greu cyflwyniad ac argymhellion polisi. Fe wnaethon nhw ein helpu i greu ffilm am hunanddelwedd a chyflwynodd dau berson ifanc eu gwaith yn y Fforwm ENYA ym Mrwsel a'u cyflwyno yng Nghynhadledd ENOC yn Belffast. Yna roedd y gwaith hwn yn bwydo i mewn i [ddatganiad blynyddol ENOC ar hawliau digidol](#).

Yn 2021 fe wnaethon ni gysylltu ag aelodau o'n panel ymgynghorol pobl ifanc, i roi cyngor ar [sut dylai cenhedloedd ymateb i ddigwyddiadau pandemig yn y dyfodol](#). Mae'r grŵp hefyd wedi cyflwyno'u canfyddiadau a'u hargymhellion i Brif Weinidog Cymru er mwyn i Gymru fedru ystyried e



## **Byddwn ni'n gweithio i ddylanwadu a chraffu ar y Llywodraeth ynghylch creu'r cwricwlwm newydd, er mwyn sicrhau trwy ddeddfwriaeth fod plant yn dysgu am eu hawliau dynol, yn dysgu mewn amgylchedd sy'n diogelu eu hawliau, ac felly wedi'u paratoi i ddiogelu a hybu hawliau pobl eraill yn y gymdeithas.**

- **Prosiect: Blociau Adeiladu**

Trwy dueddiadau a nodwyd trwy ein Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor, fe wnaethon ni gynnal ymchwiliad i waharddiadau mewn addysg Cyfnod Sylfaen (3-7 oed) ledled Cymru. Roedd y gwaith yn cynnwys dadansoddi 21 o achosion, arolwg o bob awdurdod lleol yng Nghymru, grwpiau ffocws gyda gweithwyr addysg proffesiynol a gwaith cyfranogol.

Mae 'Blociau Adeiladu: Cynhwysiad yn y Cyfnod Sylfaen' yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith ymchwil yma ac yn datgelu 768 o achosion yr adroddwyd amdanynt o waharddiadau yng nghyswllt plant Cyfnod Sylfaen yn 2018-9. Mae'r ffigur gwirioneddol yn debygol o fod yn uwch, gan na chafwyd data gan bob awdurdod lleol. Datgelodd ymchwiliadau hefyd fod naw plentyn Cyfnod Sylfaen, ar gyfartaledd fesul awdurdod, wedi cael eu gwahardd fwy nag unwaith, ac roedd un plentyn wedi cael gwaharddiad 18 o weithiau mewn cyfnod o un flwyddyn.

Ers cyhoeddi'r gwaith yma, rydyn ni wedi bod yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth o effaith gwaharddiadau ar blant ac i hyrwyddo'r adnoddau a ddatblygwyd fel rhan o'r prosiect hwn. Fe ddefnyddion ni ein [Hadroddiad Blynyddol 2020/21](#) i alw ar Lywodraeth Cymru i osod polisi clir ar atal gwaharddiadau.

- **Gwreiddio'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Ers 2019, rydyn ni wedi bod yn gweithio i gefnogi Llywodraeth Cymru i wreiddio'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Côd Ymarfer, er mwyn pwysleisio sut gall y Côd newydd wreiddio hawliau plant ar draws holl brofiad addysgol plant, yn ogystal â chysylltu â'r cwricwlwm newydd. Rydyn ni wedi parhau i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol, plant, grwpiau rhieni a lleoliadau i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau plant a sut maen nhw'n llywio cyfraith 2018. Fe roeson ni gyflwyniad ar ddyletswydd sylw dyledus i'r Is-grŵp Strategol ar gyfer y Cwricwlwm, Partneriaeth Rhieni Sir Benfro, ac mewn digwyddiad hyfforddi ar hawliau plant i arweinwyr llesiant yn y consortia rhanbarthol.

### • Diogelu Hawliau;

Yn 2020, fe wnaethon ni wthio am reoliadau tynnach fel bod rhaid i bob athro gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC). Ceir rhagor o fanylion yn yr adran 'diogelu hawliau ble bynnag rydych chi' ar dudalen 36.

## • Sbotolau: Bil y Cwricwlwm

Mae sicrhau bod plant yn dysgu am eu hawliau yn y Cwricwlwm wedi bod yn ffocws pwysig i'n gwaith. Ers 2019, bu gan y Comisiynydd gynrychiolaeth ar y Grŵp Cyngori Annibynnol a'r Grŵp Rhanddeiliaid Strategol ar gyfer y cwricwlwm newydd. Yn haf 2019, cyflwynodd y Comisiynydd ymateb llawn i'r dogfennau drafft ar y cwricwlwm, a thrwy graffu sawl tro, sicrhodd fod pobl ifanc yn cael cyfleoedd ar-lein ac wyneb yn wyneb i fod yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Roedd dogfennau'r cwricwlwm a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 yn adlewyrchu sawl elfen o alwadau allweddol y Comisiynydd: mae hawliau wedi'u cynnwys ym Meysydd Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a Iechyd a Lles, ac mae'r cyflwyniad i'r cwricwlwm yn cynnwys adrannau ar CCUHP, addysg hawliau dynol, a chyfranogiad dysgwyr wrth ddylunio'r cwricwlwm. Bu'r fîm yn cefnogi'r drafftio ar gynnwys addysg hawliau dynol. Hefyd defnyddion ni ein Hadroddiadau Blynyddol i alw am osod y ddyletswydd yn y Bil, ac wedi hynny am hyfforddiant hawliau o safon uchel i helpu i wreiddio'r ddyletswydd.

Cytunodd y Senedd ar Fil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) ar 9 Mawrth 2021. Pasiwyd y Ddeddf gan gynnwys 'Dyletswydd i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiynau'r CU ar hawliau plant a phobl ag anableddau'. Mae'r ddyletswydd hon yn golygu bod rhaid hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddau gonfensiwn ymhlith pawb sy'n darparu dysgu ac addysgu mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gydweithio'n agos â swyddfa CPC i ddatblygu pecyn cefnogi o ddysgu a chanllawiau proffesiynol i alluogi'r ddyletswydd hon.

Rydyn ni'n parhau i gefnogi ac ategu gwaith Llywodraeth Cymru ar weithredu'r ddyletswydd bwysig hon, a fydd yn sicrhau bod plant yng Nghymru yn dysgu am eu hawliau mewn ysgolion.





## Cymru: gwlad lle mae plant nid yn unig yn dysgu am eu hiechyd meddwl a'u llesiant, ond yn cael eu cefnogi gan bawb o'u cwmpas yn yr ysgol i dyfu i fyny'n hapus ac yn iach.

- Gan adeiladu ar flynyddoedd o waith ymgynghorol gyda phlant a phobl ifanc, fe wnaethon ni sicrhau bod y [canllawiau cenedlaethol newydd i atal bwlio](#) wedi'u seilio ar hawliau, wedi'u llywio gan blant a phobl ifanc, ac yn cynnwys dyletswyddau i ddadansoddi data cydraddoldeb. Fe fuon ni'n gwthio'n llwyddiannus hefyd am wneud y canllawiau hynny'n statudol, fel eu bod yn gallu cael effaith ar holl blant Cymru.
- Ers 2019, mae'r Swyddfa wedi bod yn [galw am weithredu Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â Iechyd Meddwl a Llesiant](#). Wedi'r alwad hon, fe welson ni Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru yn cael ei sefydlu, a chyllid sylweddol i helpu i gyflawni'r newid polisi pwysig hwn.
- Bellach mae [canllawiau statudol](#) wedi cael eu cynhyrchu i ysgolion i'w cefnogi i lunio cynllun gweithredu fydd yn gwella amgylchedd yr ysgol o safbwynt iechyd meddwl a chymorth llesiant, a gwella cysylltiadau ysgolion â gwasanaethau ehangach fel rhan o fecanwaith cefnogi system gyfan.
- Rydym wedi helpu i wreiddio'r dull gweithredu newydd hwn trwy gynnig cefnogaeth ymarferol, megis ymuno â Thîm Seicoleg Gwent i ddarparu hyfforddiant ar ddatblygiad a hawliau plant.

Mae Strategaeth Gofalwyr Cymru hefyd yn cysylltu â'r cynlluniau Dull Gweithredu Ysgol Gyfan, er mwyn cefnogi gofalwyr ifanc yn well.

- Buon ni hefyd yn annog plant a phobl ifanc i ddatblygu'r cynlluniau hyn. Fe sefydlon ni Dasg Arbennig ar gyfer ein hysgolion Llysgenhadon fel bod y plant yn gallu ymchwilio i sut mae eu hysgol yn cefnogi eu llesiant, a sut gallai plant gael eu gwneud yn ymwybodol o'r gefnogaeth honno.
- Fe ddefnyddion ni ein [Hadroddiad Blynyddol yn 2020/21](#) i alw am adnoddau a chefnogaeth i sicrhau bod uchelgais y dull gweithredu Ysgol Gyfan yn cael ei chyflawni.

Mae'n wych bod gennym ni fframwaith mor gryf yng Nghymru nawr, ond mae heb gael ei wreiddio'n llawn eto. Mae'n bwysig bod adnoddau a chefnogaeth yn parhau i gael eu darparu i ysgolion i helpu i wireddu'r uchelgais bwysig hon.

### • Prosiect 'Dyma fi'

Nod yr adnodd hwn, a grëwyd yn sgîl ein gwaith blaenorol ar fwlio, a phrotestiadau Mae Bywydau Du o Bwys yn 2020, oedd tacllo stereoteipiau a dathlu amrywiaeth Cymru. Bu ein panel pobl ifanc yn ein cefnogi i ddatblygu adnoddau ynghylch amrywiaeth a chynhwysiad, gan gynnwys cynllun gwers a fideos o grwpiau o bobl ifanc â gwahanol nodweddion yn trafod y stereoteipiau maen nhw'n eu hwynebu. Defnyddiwyd yr adnodd yn rhan o'n Tasg Arbennig i'n hysgolion Llysgenhadon a'n cynlluniau Llysgenhadon Cymunedol yn yr hydref.

Defnyddiwyd yr adnodd hwn yn eang mewn ysgolion a grwpiau cymunedol yn hydref 2020 ac mae'n dal [ar gael ar ein gwefan](#).

## Sbotolau: Canllawiau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Yn 2021, pasiodd y Senedd Ddeddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, oedd yn cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) orfodol. Mae'r gyfraith hon yn un elfan a fydd yn helpu i sicrhau proses y mae mawr angen amdani yng Nghymru, i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn cyfleoedd o safon uchel i ddatblygu eu dealltwriaeth o gydberthynas a rhywioldeb. Bydd hyn yn helpu i rymuso plant a phobl ifanc â'r ddealltwriaeth a'r sgiliau mae arnyn nhw eu hangen i wneud dewisiadau diogel, gwybodus.

Mae'r Comisiynydd wedi cynghori a chraffu ar y Llywodraeth ynghylch datblygu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ystod y broses o gynllunio ar gyfer Deddf y Cwricwlwm ac Asesu a'i thaith trwy'r Senedd. Cewch fwy o wybodaeth am hyn yn y [dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd](#) i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yng Nghyfnod 1 eu craffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

Mae swyddfa'r Comisiynydd hefyd wedi cynghori a chraffu ar y Llywodraeth ynghylch datblygu'r Côd a'r Canllawiau RSE statudol, ac wedi cefnogi ei Phanel Ymgynghorol o bobl ifanc i gyfranogi trwy gyflwyno eu hymateb eu hunain i [ymgynghoriad 2021 ar y Côd a'r Canllawiau RSE drafft](#). Gallwch ddarllen eu hymateb llawn i'r ymgynghoriad [hwn yn y PDF hwn](#).

Mae'n eithriadol bwysig bod y canllawiau hyn yn cysylltu â'r dull gweithredu ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant. Dylai ysgolion ymgorffori egwyddorion ac ymddygiad addysg RSE gynhwysol, seiliedig ar hawliau. Yn dilyn lansio gwefan 'Gwahoddiad i Bawb' ac [adroddiad diweddar gan ESTYN](#) ar hyd a lled aflonyddu rhywiol mewn ysgolion, mae'n eglur bod angen i ni wella ymateb yr ysgol a'r gymuned i blant a phobl ifanc sy'n profi ac yn cyflawni aflonyddu rhywiol. Mae trafodaeth bwysig wedi cychwyn, ond mae cryn bellter i'w deithio o hyd cyn i blant gael eu cefnogi'n gyson a chael mynediad i addysg RSE o safon uchel. Gallwch chi ddarllen mwy am y gwaith rydyn ni wedi bod yn ei wneud ynghylch atal ymosodiadau ar blant a'u hecsbloetio'n rhywiol ar dudalen XX.



## Cymru: gwlad y mae ei llywodraeth wedi cymryd camau newydd i leihau tlodi plant a'i effaith.

- Ers 2019, rydyn ni wedi defnyddio ein hadroddiadau blynyddol i alw am gymryd camau i ddileu'r terfyn cyfredol o ddau blentyn yn achos budd-daliadau. Mae hwn yn benderfyniad polisi camwahaniaethol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n effeithio ar hawliau plant i gael safon byw sy'n ddigonol.

Buon ni'n [ysgrifennu gyda'n cyd-Gomislynwyr](#) at Therese Coffey AS yn galw am ddot â'r terfyn hwn i ben. Ond ychydig sydd wedi cael ei wneud i ddileu'r terfyn hwn gan Weinidogion olynol o Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ac nid ydynt wedi bod yn barod i gwrdd i drafod ein pryderon.

- Fe gynhyrchon ni gyfres o [adnoddau ymarferol](#) i helpu ysgolion i gefnogi plant a theuluoedd rhag effaith tlodi. Roedd hyn yn dilyn ymlaen o'n hadroddiad ['Siarter ar gyfer Newid; Diogelu plant rhag effaith tlodi'](#).

Hefyd fe wnaethon ni gynnal seminar gyda 140 o Lywodraethwyr ysgol o bob rhan o Gymru ar ein hadnoddau gwrthdlodi, a sesiynau gyda dau Gynghorydd Lleol mewn dau awdurdod lleol.

Bu Awdurdodau Lleol yn rhannu eu syniadau a'u mentrau gyda ni yn rhagweithiol, mewn gohebiaeth a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mewn un awdurdod lleol maen nhw wedi cyflwyno cynllun prydau 'dros ben' mewn ysgolion uwchradd, lle mae modd casglu bwyd sydd dros ben ar ddiwedd y dydd. Roedd yr awdurdod lleol hwn hefyd wedi cynnal eu hymgyrch eu hunain ynghylch manteisio ar y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim, a arweiniodd at gynnydd o fwy na 10%.

Mae un arall wedi canolbwyntio'n gryf ar dlodi mislif, gan weithio ar y cyd â'r Cyngor Ieuencid. Mae un awdurdod lleol yn archwilio ffyrdd o ganiatáu 'trosglwyddo' unrhyw lwfans sydd heb ei ddefnyddio ar gerdyn pryd bwyd o ddiwrnodau blaenorol. Mae o leiaf ddau awdurdod lleol wedi gwneud ein Siarter ar gyfer Newid yn flaenoriaeth i'w hysgolion.

- **Tasg Arbennig i ysgolion;**

Yn nhymor yr hydref 2019 fe ofynnon ni i ysgolion cynradd ac uwchradd oedd yn rhan o'n cynllun Llysgenhadon i ddefnyddio ein hadnodd Gwyrdd-droi i weithio gyda disgyblion yn eu hysgol i sefydlu siop ailddefnyddio gwisg ysgol; er budd i'r amgylchedd ac i helpu rhieni/gofalwyr i arbed arian. Cyn dechrau'r dasg fe gynhalion ni weithdy ar gyfer 475 o Lysgenhadon disgyblion er mwyn iddyn nhw fedru helpu i arwain y dasg hon yn eu hysgol.

Ers hynny mae dros 50 o ysgolion wedi cadarnhau bod ganddyn nhw gynlluniau clir neu eu bod eisoes wedi rhoi newidiadau ar waith fel sefydlu cynlluniau ailddefnyddio gwisg ysgol a newid gweithgareddau sy'n cynnwys cost i'r disgyblion.

- **Yn ein gwaith o ddydd i ddydd, rydyn ni wedi ceisio amlygu newidiadau ymarferol a allai, o'u gweithredu, wneud gwahaniaeth mawr i fywydau'r rhai sy'n wynebu effeithiau tlodi. Mae hynny wedi cynnwys...**

....Ym mis Ionawr 2021, ysgrifennodd CPC a Chomisiynwyr o bob rhan o'r Deyrnas Unedig ar y cyd at Ysgrifennydd Gwladol Gwaith a Phensiynau'r Deyrnas Unedig yn galw am gynigion i symud ymlaen gyda newidiadau a drefnwyd i'r Gyfradd Llety a Rennir ar gyfer 2023, i'w cyflwyno ar unwaith. O fis Mehefin 2021, ni fydd Ymadawyr Gofal yng Nghymru a Lloegr bellach yn dod o dan y Gyfradd Llety a Rennir, sy'n golygu ei fod yn llai tebygol y bydd angen iddyn nhw symud o fyw'n annibynnol i lety a rennir yn 21 oed.

....Mae LIC wedi bod yn gweithio ar Fwyafu Incwm a manteisio ar fudd-daliadau ledled Cymru. Rydyn ni wedi cyfranogi'n weithredol yn y gwaith hwn ac wedi pwyo ar LIC ac WLGA i barhau i weithio ar ymrestru awtomatig fel bod teuluoedd yn cael mynediad i'r holl fudd-daliadau a grantiau sydd ar gael iddyn nhw eu hawlio. Cyhoeddodd y Llywodraeth adroddiad ar eu cynnydd cyn etholiad 2021, ond mae wedi ailgychwyn ar y gwaith ers hynny, ac roedden ni'n falch o weld ymgyrchoedd gweithredol i gynyddu'r nifer sy'n hawliau budd-daliadau penodol yn y cyfamser, cyn i ymrestru awtomatig ehangach gael ei gyflawni.

... Ar hyd y pandemig rydyn ni wedi parhau i godi'r angen am benderfyniadau sensitif gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r ymateb i'r Pandemig yng Nghymru wedi bod yn sensitif i dlodi, gyda'r lefelau uchaf o daliadau uniongyrchol Prydau Ysgol am Ddim yn y Deyrnas Unedig a phenderfyniad cynnar i barhau â'r taliadau yn ystod y gwyliau.

....Rydyn ni wedi parhau i lobiö am adolygu ac ehangu Prydau Ysgol am Ddim a Chynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru i blant, er mwyn sicrhau nad yw plant yn cael eu rhoi o dan anfantais oherwydd statws cyflogaeth eu rhieni.

**Yn 2021, roedden ni'n falch o weld Cytundeb Plaid/Llafur yn ymrwymo i weithredu'r nodweddion ehangach hyn.**

# Diogelu eich hawliau, ble bynnag rydych chi



Yn 2019, fe nodon ni ein bod ni am ddefnyddio rôl y Comisiynydd a'r Swyddfa i ddiogelu hawliau plant. Fe gyflwynon ni'r uchelgeisiau canlynol, sef bod Cymru'n dod;

1

yn wlad fydd yn rhoi'r un amddiffyniad rhag cosb gorfforol i blant ag i oedolion.

2

yn wlad sy'n parchu hawliau plant ym mhob lleoliad addysg, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu haddysgu gartref.

3

yn wlad sydd â digon o lety diogel ar gyfer ein plant sydd â'r anghenion iechyd meddwl ac ymddygiad mwyaf cymhleth, y mae angen iddyn nhw fyw oddi cartref.

Hefyd fe wnaethon ni ymrwymo i amlygu'r angen am ddiogelu hawliau plant a allai fod yn arbennig o agored i niwed oherwydd eu bod ar y cyrion neu allan o'r golwg. Mae hyn yn cynnwys y rhai 'o dan radar' gwasanaethau cyffredinol, plant mewn gofal y tu allan i'r cartref, gan gynnwys gofal iechyd meddwl ac ysgolion preswyl, ffoaduriaid a phlant digartref.



## Dyma beth wnaethon ni i helpu i gyflawni hyn.



## Cymru: gwlad a fydd yn rhoi'r un amddiffyniad rhag cosb gorfforol i blant ag i oedolion.

- Wrth gychwyn yn ei rôl fel Comisiynydd Plant Cymru, yn 2015 galwodd Sally am ddileu amddiffyniad cosb resymol, fel bod gan blant yr un amddiffyniad ag oedolion o dan y gyfraith. Bu hi a'i thîm yn gweithio'n systematig i ddylanwadu ar y ffordd o feddwl ynghylch y mater hwn gyda'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill hyd nes i'r ddeddfwriaeth gael ei phasio yn 2020.
- Yn 2020, rhoddwyd amddiffyniad cyfartal rhag cosb gorfforol i blant yng Nghymru o'r diwedd o dan y gyfraith wrth i Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 gael ei phasio.
- Ers i'r Bil hwn gael ei basio, rydyn ni wedi parhau i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus i wreiddio'r newid cyfreithiol hwn cyn iddo ddod i rym ym mis Mawrth 2022. Mae hyn wedi cynnwys...

.... Gweithio gyda LIC ar eu negeseuon ac ymwybyddiaeth y cyhoedd;

.... Cyfrannu at grwpiau sy'n ystyried dulliau amgen heblaw erlyn o ddelio â hyn.

.... Bu'r Comisiynydd yn cymryd rhan mewn [ffilmiau](#) addysgiadol oedd ar gael i rieni a gofalwyr ar rianta heb ddefnyddio cosb gorfforol, a'r rhesymeg y tu ôl i'r newid yn y gyfraith.



## Cymru: gwlad sy'n parchu hawliau plant ym mhob lleoliad addysg, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu haddysgu gartref.

### • Ysgolion Annibynnol

Yn dilyn achos arwyddocaol a dderbyniwyd gan ein swyddfa ynghylch Ysgol Annibynnol yng Ngogledd Cymru, rydyn ni wedi bod yn pryderu am y diffyg mesurau amddiffyn a rheoliadau yn y sector hwn i ddiogelu plant.

Ochr yn ochr â cheisio dylanwadu ar newid rheoliadol, cyflwynodd ein Swyddfa hyfforddiant hawliau plant i'r Bwrdd Ysgolion Annibynnol a chefnogi'r ysgol i wneud newidiadau eraill er mwyn darparu amgylchedd mwy diogel i blant.

### • Ymchwiliadau annibynnol i honiad yn erbyn staff addysgu

Daeth ein swyddfa yn ymwybodol o achos oedd yn destun pryder, lle roedd disgyblion mewn ysgol yn derbyn negeseuon amhriodol gan athro. Fe ganfuon ni fod Cymru heb wasanaeth ymchwilio annibynnol i ymchwilio i honiadau.

Roedd angen i Lywodraeth Cymru egluro'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau annibynnol er mwyn bod yn sicr bod trefniadau cadarn yn eu lle. Ers i ni ymyrryd, mae pob Awdurdod Lleol wedi cadarnhau bod ganddyn nhw wasanaethau yn eu lle, y mae modd iddynt gael mynediad iddyn nhw os bydd angen, ac y byddan nhw'n gwneud hynny os bydd honiad yn codi ynghylch aelod o staff yr ysgol. Gallwch ddarllen mwy am ein gwaith ynghylch Ysgolion Annibynnol yn ein [Hadolygiad](#).

#### • Cofrestru Athrawon a Staff Ysgolion

Rydyn ni hefyd wedi gweithredu i annog Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau rheoliadol i Ysgolion Annibynnol. Trwy waith achosion a dderbyniwyd gan y Swyddfa, amlygwyd angen brys am gau bwlch yn y rheoliadau oedd yn golygu nad oedd angen i staff ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC), oedd yn achos risg diogelu i rai plant.

Fe ddefnyddion ni Adroddiad Blynyddol 2019-20 i alw ar Lywodraeth Cymru i newid y fframwaith rheoliadol ynghylch ysgolion annibynnol a Chyngor y Gweithlu Addysg, er mwyn cynnwys gofyniad bod rhaid i holl staff addysgu ac arweinyddion ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno'r newid hwn.

Yn 2021 estynnwyd pwerau'r EWC i sicrhau bod modd iddynt orfodi Gorchmynion Atal Interim er mwyn darparu mesur diogelu ychwanegol ar gyfer pobl ifanc. Buon ni'n dadlau o blaid y newid hwn yn ein hymateb i ymgynoriadau.

#### • Plant sy'n cael eu haddysgu gartref

Fe wnaethon ni alw am drefniadau arholiadau ar gyfer haf 2021 i sicrhau bod 'ymgeiswyr preifat', sy'n cynnwys pobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref, ddim yn colli cyfle i gael cymwysterau, er bod arholiadau'n cael eu canslo. Galluogwyd hyn, a darparwyd canolfannau ledled Cymru er mwyn dyfarnu Graddau a Bennwyd gan Ganolfannau i bobl ifanc. Yn ystod y pandemig buon ni hefyd yn dylanwadu ar y Llywodraeth i gyflwyno cyngor penodol i grwpiau cymunedol addysgu gartref, pan nad oedd hynny wedi cael ei gyflwyno'n barod ochr yn ochr â newidiadau i ganllawiau cymunedol ehangach ynghylch sut i ddefnyddio cyfleusterau a grwpiau cyfarfod.

Yn ystod y pandemig fe wnaethon ni ddylanwadu ar y Llywodraeth i ddarparu cyngor penodol i grwpiau addysgu gartref.

## Sbotolau: Dewis Addysgu Gartref

Un ffocws allweddol i'n Cynllun Tair Blynedd fu bod y Llywodraeth yn newid y gyfraith i blant sy'n cael eu haddysgu gartref, er mwyn bod proses gryfach i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu diogelu. Mae hawliau plant yn rhai cyffredinol, ac mae'n bwysig bod hawliau plant yn cael eu hyrwyddo ble bynnag maen nhw'n dysgu.

**Fe gyflwynon ni dri phrawf i newid polisi arfaethedig Llywodraeth Cymru eu bodloni, er mwyn helpu i sicrhau bod plant yn cael eu gweld, eu gwranddo a'u haddysgu. Dyma'r tri phrawf;**

- Bod modd rhoi cyfrif am holl blant Cymru, ac nad oes neb ohonynt yn anweledig;
- Bod pob plentyn yn derbyn addysg addas a'u hawliau dynol eraill, gan gynnwys iechyd, gofal a diogelwch;
- Bod pob plentyn yn cael eu gweld a bod eu barn a'u profiadau'n cael eu gwranddo. Mae hyn yn hanfodol os yw'r ddau brawf cyntaf i gael eu bodloni.

Yn 2019, fe ddechreuon ni weld cynnydd y bu disgwyl hir amdano yn y maes hwn, gyda chyhoeddi canllawiau statudol drafft ar gyfer ymgynghori a rheoliadau drafft i sefydlu cronfeydd data awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod pob awdurdod lleol yn gwybod ble roedd plant yn cael eu haddysgu. Fodd bynnag, yn haf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru na fyddai'r canllawiau newydd a'r rheoliadau'n cael eu symud ymlaen oherwydd pandemig y coronafeirws, ac arweiniodd hynny at newidiadau i'r amddiffyniad ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu gartref.

Dyma un o'r rhesymau pam cynhalion ni'r Adolygiad Annibynnol cyntaf o Lywodraeth Cymru. Canfu'r Adolygiad hwn na fyddai cynigion 2019/20 y Llywodraeth ar gyfer deddfwriaeth eilaidd (rheoliadau a chanllawiau statudol) yn gallu cyflawni'r nod polisi arfaethedig, sef bodloni tri phrawf y Comisiynydd yn llawn.

Mae'r diffyg newid statudol yn y maes hwn yn dal yn destun pryder. Gyda nifer cynyddol o deuluoedd yn dewis addysgu eu plant gartref, a hynny am lu o resymau, mae'n hanfodol bod gan Gymru fframwaith deddfwriaethol cadarn yn ei le i sicrhau nad yw plant yn 'syrthio oddi ar' radar gwasanaethau cyffredinol, a heb gael eu gweld.

## Sbotolau: Adolygiad Annibynnol o Lywodraeth Cymru

Yn 2020, penderfynodd y Swyddfa ddefnyddio pwerau statudol y Comisiynydd i edrych ar beth roedd Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i ddiogelu a chefnogi hawliau plant sy'n cael eu haddysgu gartref a'r rhai sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion annibynnol. Hwn oedd y tro cyntaf i'r Swyddfa ddefnyddio'r pwerau hyn.

Roedd yr adolygiad hwn yn deillio o bryderon y gallai'r cyfreithiau a'r amddiffyniadau i blant sy'n cael eu haddysgu yn y lleoliadau hyn fod yn gryfach.

Canfu'r [Adolygiad](#) nad oedd y Llywodraeth wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol o dan y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, i amddiffyn a chynnal hawliau plant yn eu gwaith. Roedden nhw wedi cyflawni llawer o weithgareddau, ond yn y pen draw, nid oedd newidiadau wedi cael eu cyflwyno i ddiogelu plant yn y lleoliadau hyn a sicrhau eu bod yn cael mynediad i'w holl hawliau.

Lluniwyd cyfres o argymhellion, yn cynnwys: newid deddfwriaethol yn y ddau faes polisi, ystyried sut mae'r Llywodraeth yn gweithio ar draws adrannau i gynnal hawliau plant, sut maen nhw'n symud ymlaen gydag ymgynoriadau polisi, sut mae gwersi Adolygiadau Ymarfer Plant yn destun gweithredu, a sut mae angen addasu pwerau'r Comisiynydd ei hun er mwyn cefnogi'n llawn ymarfer eu rôl fel pencampwr annibynnol i blant ym mhob lleoliad ar draws Cymru.

Mae'r Llywodraeth wedi derbyn mwyafrif o'r argymhellion yn eu [hymateb ffurfiol](#) i'r adolygiad ym mis Mawrth 2021. Er nad oedd modd derbyn rhai o'r argymhellion yn llawn ar y pryd heb wneud ymrwymadau ar ran y Llywodraeth newydd, mae'r ffaith mai Llywodraeth Lafur sy'n parhau yng Nghymru yn golygu bod modd i waith a gychwynnwyd eisoes gael ei symud ymlaen yn gyflym.

Roedden ni hefyd yn falch o weld ailsefydlu gr p o uwch swyddogion o fewn y Llywodraeth i drafod materion trawsbynciol a sicrhau nad yw pethau'n syrthio rhwng dwy stôl o ran adrannau neu bortffolios. Byddwn ni'n parhau i wthio am newidiadau cyflym yn y ddau faes polisi yma gyda'r Llywodraeth newydd, ac mae hynny'n cynnwys trafodaeth barhaus ar yr argymhellion oedd heb eu derbyn.





## Cymru: gwlad sydd â digon o lety diogel ar gyfer ein plant sydd â'r anghenion iechyd meddwl ac ymddygiad mwyaf cymhleth, y mae angen iddyn nhw fyw oddi cartref.

- Ers 2019, rydyn ni wedi defnyddio ein Hadroddiadau Blynyddol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r diffyg llety addas sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi plant sydd ag anghenion cymhleth.

Yn rhy aml, roedd plant yn cael eu lleoli'n bell o'u cymunedau, yn cael eu rhoi mewn llety anaddas, neu'n mynd heb gefnogaeth therapiwtig bwysig. Yn 2021, dim ond un lleoliad iechyd meddwl diogel lefel isel oedd ar gael yng Nghymru.

Yn dilyn pwysau cyson trwy astudiaethau achos gan y Comisiynydd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £2 filiwn o gyllid ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn benodol i ddatblygu llety newydd diogel ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.

Mae'r rhan fwyaf o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi ymateb â chynlluniau ar gyfer llety diogel newydd, ac mae'r mwyafrif o'r rheiny yn cynnwys mewnbwn gan iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cefnogaeth therapiwtig. Mae rhai hefyd yn cynnwys cyfraniad trydydd sector. Ar adeg ysgrifennu, fodd bynnag, nid oes dim o'r darpariaethau wedi agor eto. Yng Ngogledd Cymru, er enghraifft, mae cynlluniau ar gyfer pedwar gwely asesu newydd tymor byr, a luniwyd i ddarparu lle therapiwtig diogel tra bod dychwelyd i wasanaethau cymunedol neu leoliad tymor hwy yn cael ei drefnu. Hefyd bydd dau wely newydd cefnogaeth ddwys i weithio gyda phlant ag anghenion cymhleth sydd ar gyrion gofal.

### • Gofal heb ei Reoleiddio:

Rydyn ni hefyd wedi codi pryderon ynghylch nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu gosod mewn llety heb ei reoleiddio, megis hosteli a Gwely a Brecwast, oherwydd diffyg opsiynau lleoliad addas. Fe wnaethon ni argymhelliad ffurfiol i Lywodraeth Cymru yn Adroddiad Blynyddol 2020/21 ynghylch dadansoddi a chasglu data am y defnydd o lety heb ei reoleiddio.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i archwilio opsiynau amgen ar gyfer pobl ifanc mewn gofal, mae Cymru yn dal heb nodi ateb i'r maes hwn, sy'n destun pryder cynyddol. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol yn nodi graddfa'r mater hwn, ac yn archwilio sut gellid newid Deddf RISC (Cymru) fel bod pobl ifanc yn cael amddiffyniad pellach.



## Diogelu hawliau plant a all fod yn arbennig o agored i niwed oherwydd eu bod ar y cyrion neu wedi'u cuddio o'r golwg. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd 'o dan radar' gwasanaethau cyffredinol, plant mewn gofal y tu allan i'r cartref, gan gynnwys gofal iechyd meddwl ac ysgolion preswyl, ffoaduriaid a phlant digartref.

- Rydyn ni wedi'i wneud yn flaenoriaeth i sicrhau ein bod ni'n gwranddo ar brofiadau plant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o amgylchiadau, ac yn eu clywed.

Mae ymweld â phlant mewn lleoliadau diogel, fel wardiau cleifion Iechyd Meddwl mewnol, cartrefi plant diogel a Sefydliadau Troseddau Ieuencid wedi bod yn flaenoriaeth i Sally a'r fim.

Mae cwrdd â phlant a'r rhai sy'n eu cefnogi yn y lleoliadau hyn wedi'n helpu i sylwi ar faterion pwysig, er enghraifft;

- Sicrhau buddsoddiad gan LIC i wella'r cyfleusterau awyr agored yng Nghartref Plant Diogel Hillside;
- Lobio HMPPS am welliannau i'r cyfleusterau cawodydd yn Parc YOI;
- Ymyrryd fel bod modd sefydlu rheolau ynysu oherwydd Covid sy'n llai cyfyngol mewn lleoliadau i gleifion iechyd meddwl mewnol;
- Sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed gan staff trwy lobio am ddychwelyd at fforymau staff a chleifion rheolaidd a mynediad at eiriolaeth mewn lleoliadau i gleifion iechyd meddwl mewnol.

Rydyn ni hefyd wedi ymweld â'r lleoliadau hyn yn rheolaidd i helpu'r plant a'r staff i ddeall hawliau plant yn well. Mae Sefydliad Troseddwr Ifanc y Parc a Chartref Plant Diogel Hillside, fel ei gilydd, wedi gwreiddio Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn eu gwasanaeth.

### • Cefnogaeth i Ofalwyr Ifanc

Cynrychiolwyd y Swyddfa yng ngrŵp Cynghori Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr. Trwy hyn, mae CPC a sefydliadau plant eraill wedi annog Llywodraeth Cymru i sicrhau yr ymgynghorir â phlant a phobl ifanc wrth ddatblygu'r Siarter Gofalwyr. Rydyn ni hefyd wedi pwysu am sicrhau bod y strategaeth Gofalwyr yn cysylltu â datblygiadau pwysig ym maes polisi plant, megis y Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â Iechyd Meddwl, er mwyn sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael eu hystyried fel grŵp allweddol o bobl ifanc a fydd yn elwa o'r datblygiad hwn.

### • Cefnogi plant B/byddar:

Dros gyfnod o sawl blwyddyn mae'r gymuned B/byddar wedi rhannu eu rhwystredigaeth gyda ni nad yw anghenion y gymuned yn derbyn sylw. Fe benderfynon ni gynnal sesiwn bord gron gyda gweithwyr proffesiynol a phlant a phobl ifanc o'r gymuned B/byddar ym mis Chwefror. Yno gofynnwyd i'r rhai oedd yn bresennol rannu eu profiadau a'u barn ynghylch cynnydd, rhwystrau oedd yn parhau a bylchau yn y ddarpariaeth.

Fe wnaethon ni ddefnyddio gwybodaeth yr oedden ni wedi'i derbyn yn ystod y cyfarfod i helpu i lywio ein hymatebion ymgynghori i ddau ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru: "Canllawiau Cwricwlwm i Gymru: iaith arwyddion Prydain" a "Cymwysedig i'r dyfodol – lleisiwch eich barn".

Yn olaf, buon ni'n trafod gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC) y pryderon oedd wedi cael eu codi gyda ni ynghylch safon ac ansawdd iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gyfer gweithwyr proffesiynol addysg arbenigol.

- Rydyn ni wedi cael ein plesio bod ein hymweliadau ag amrywiaeth o leoliadau lle mae plant agored i niwed yn byw wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth gallwn ni ei chynnig.

- **Daeth yr achosion canlynol at sylw ein Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor...**

Ffoniodd person ifanc wasanaeth achosion y Comisiynydd yn gofyn am help oherwydd eu bod yn dal ar ward seiciatrig er y dylsen nhw gael eu rhyddhau. Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno i gael hyd i leoliad ar gyfer y person ifanc, ond nid ymddangosai eu bod yn brysio i wneud hynny. Cysylltodd fy swyddog â'r cyrff statudol perthnasol a chanfod bod y cyfathrebu wedi methu. Trefnwyd cyfarfodydd rheolaidd i gadw'r achos hwn yn flaenoriaeth. Rhoddwyd llety priodol i'r person ifanc. Amlygodd yr achos hwn yr angen am ddefnyddio iaith gyffredin rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

- **Diogelu hawliau plant a fabwysiadwyd.**

Wrth ddarllen Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi cyngor priodol i rieni, amlygodd fy swyddog fod gwahaniaethu ymddangosiadol yn erbyn rhieni mabwysiadol, gan eu bod yn methu cael mynediad i'r cynnig hwn. Codwyd hyn gyda Llywodraeth Cymru ac mae'r cynnig gofal plant diwygiedig yn awr yn darparu ar gyfer rhieni mabwysiadol.

- **Cefnogi Plant sy'n Ffoaduriaid ac yn Geiswyr Lloches**

Yn 2020 fe wnaethon ni ddarparu datganiad tyst mewn achos cyfreithiol ynghylch y cynllun ailsefydlu ffoaduriaid o Syria, a chynnig Cymru i fod yn Genedl Noddfa. Nid oedd cynigion awdurdodau lleol yng Nghymru i gynnig lleoliadau wedi cael eu prosesu'n effeithiol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Fe wnaethon ni ymyrryd hefyd yn 2019 i gefnogi awdurdod lleol yng Nghymru i sicrhau bod modd cynnal cyfwelliadau hawlio lloches i bobl ifanc yng Nghymru. Cyn hynny, roedden nhw'n gorfod teithio ar fyr rybudd i Croydon neu Solihull, oedd yn brofiad anodd ac yn codi ofn ar y bobl ifanc hyn.

Rydyn ni wedi cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau, ar y cyd â'n cymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, a [thystiolaeth ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol](#) i'r Senedd.

Rydyn ni wedi ysgrifennu [llythyr agored at y Prif Weinidog](#) gyda'r cydweithwyr hynny, yn annog mwy o gefnogaeth i ffoaduriaid o Wcrain.

- **Plant Sipsiwn, Teithwyr a Roma;**

Rydyn ni wedi gwrandao ar blant o gymunedau Sipsiwn, Teithwyr a Roma trwy fforymau ar-lein gyda chefnogaeth yr elusen Travelling Ahead. Mewn ymateb i wybodaeth a gafwyd yn y fforymau hyn yn 2021-22 mae'r Comisiynydd a'i thîm wedi:

- Gwrandao ar blant oed ysgol gynradd o deuluoedd Roma yn ne Cymru, ac wedi ceisio camau gweithredu yn llwyddiannus gan awdurdodau lleol i sicrhau eu hawliau i ddiogelwch ac addysg;
- Gwrandao ar blant o deuluoedd Teithwyr yng ngogledd Cymru a chyfleu eu barn i ymgynghoriad lleol ar safleoedd teithwyr.

Rydyn ni wedi ysgrifennu at ystod o randdeiliaid mewn ymateb i'r materion amrywiol a godwyd gan blant Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae hynny wedi cychwyn cynlluniau ar gyfer creu fideo i deuluoedd Roma ynghylch cael mynediad i gyfleusterau cyfieithu ym maes gofal iechyd, cyfarfod amlasiantaeth i drafod y pryderon a godwyd, a chodi pryderon gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Byddwn ni'n parhau â'r gwaith hwn yn 2022.

## Sbotolau: Mynediad at Eiriolaeth

Mae mynediad cyson at eiriolaeth annibynnol yn fesur diogelu pwysig i blant.

Yn 2017, bu Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a llawer o sefydliadau hawliau plant yn llobio'n llwyddiannus am weithredu'r Dull Cenedlaethol o Ymdrin ag Eiriolaeth Statudol, sy'n golygu bod gan bob plentyn sydd mewn gofal neu'n destun ymchwiliad amddiffyn plant hawl i gael cynnig cefnogaeth gan eiriolydd annibynnol. Ers derbyn yr hawl gyfreithiol hon, mae llawer o blant wedi cael eu cefnogi i godi materion sy'n bwysig iddyn nhw, i gymryd rhan yn eu hadolygiadau a'u cyfarfodydd statudol, ac mae eu lleisiau wedi cael eu clywed yng nghyswllt penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Fodd bynnag, er gwaethaf y newid pwysig hwn i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, mae llawer o blant a phobl ifanc yn dal heb gefnogaeth eiriolydd, er enghraifft plant sy'n derbyn cefnogaeth gan y gwasanaethau iechyd. Gall fod yn anodd cael hyd i ffordd trwy wasanaethau a systemau, ac ar hyn o bryd ni all plant gael mynediad at gefnogaeth fel mater o drefn i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Mae ein Swyddfa wedi galw'n gyson ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau ar gyfer Byrddau Iechyd a fyddai'n sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael mynediad at eiriolaeth iechyd annibynnol petai angen hynny arnyn nhw. I gychwyn, sefydlodd Llywodraeth Cymru weithgor i edrych ar weithredu'r argymhelliad hwn, ond ers dyfodiad Pandemig y Coronafeirws, ymddengys bod Llywodraeth Cymru wedi oedi'r datblygiad pwysig hwn, ac ni wnaed cynnydd hyd yma.

Rydyn ni hefyd wedi bod yn pryderu ynghylch argaeledd eiriolaeth mewn cartrefi preswyl i blant. Mae ymchwil gan TGP Cymru a gwaith achosion a dderbyniwyd gan ein Swyddfa wedi amlygu pwysigrwydd sicrhau bod modd i bob plentyn gael mynediad i'r hawl bwysig hon. Rydyn ni wedi cefnogi galwadau am gryfhau'r ddarpariaeth eiriolaeth trwy newid rheoliadol.

## Sbotolau: Bord Gron Cam-drin/Ecsbloetio Plant yn Rhywiol (CSA/E)

Mae'r Swyddfa wedi cadeirio Bord Gron ar Atal Plant rhag cael eu cam-drin a'u hecsbloetio'n rhywiol ers blynyddoedd lawer. Mae'r Ford Gron hon wedi bod yn grŵp pwysig wrth ddod â sefydliadau ynghyd i drafod yr ymateb amlasiantaeth sy'n ofynnol i amddiffyn plant, rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau yn y gwasanaeth a rhannu pryderon neu ganfyddiadau o ran tueddiadau. Mae nifer dda yn dod i'r Ford Gron, ar ffurf Llywodraeth Cymru, Arweinwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelu, yr Heddlu, y Gwasanaeth Ymosodiadau Rhywiol a chyrrff eraill cyhoeddus a thrydydd sector sy'n arbenigo yn y maes hwn.

Mae'r materion mae sefydliadau wedi dod â nhw at y Ford Gron wedi helpu i ddylanwadu ar newidiadau i'r gyfraith, polisïau a gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod mesurau diogelu cryfach ar waith i'r plant, a'u bod yn gallu derbyn cefnogaeth amserol os bydd angen hynny, er enghraifft;

- Bu'r Ford Gron yn cefnogi Ymgyrch Close the Loophole yr NSPCC i ddileu'r sefyllfa anghyson lle gallai oedolyn mewn sefyllfa o ymddiriedaeth fod mewn perthynas agored gyda pherson ifanc 16 neu 17 oed;
- Rydyn ni wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Ymchwiliad Annibynnol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA);
- Helpwyd i sicrhau cyllid a ffurfio'r gwelliant mewn Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ledled Cymru, fel eu bod yn fwy plentyn-ganolog ac yn darparu amgylchedd therapiwtig;
- Helpwyd i nodi bylchau yn y gefnogaeth i deuluoedd sy'n profi CSA ac ymchwiliadau gan yr heddlu;
- Sicrhawyd bod trefniadau amlasiantaeth yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau o ran canllawiau, tystiolaeth ac adnoddau, gan helpu i gyfrannu at ddealltwriaeth a rennir o derminoleg ac uchelgeisiau ar gyfer atal CSA/E.

**“Mae'r ford gron wedi bod yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth werthfawr gyda chydweithwyr ar draws sefydliadau ynghylch heriau a bylchau allweddol wrth roi Cynllun Gweithredu [CSA Llywodraeth Cymru] ar waith. Rwy'n wir wedi gwerthfawrogi'r cyfle i fonitro'n fanwl yr heriau allweddol a gyflwynir gan y Cynllun Gweithredu.**

**Rwy'n teimlo mai rôl ddefnyddiol i'r ford gron fyddai casglu gwybodaeth am y bylchau sy'n dal heb dderbyn sylw wrth i'r Cynllun Gweithredu dynnu at y terfyn, fel ein bod ni ddim yn colli momentwm ynghylch y mater polisi hollbwysig hwn, ac yn gallu cyflawni newid parhaol i blant a phobl ifanc ar lawr gwlad.”**

Pennaeth Polisi, NSPCC Cymru.

## Cefnogaeth i blant sydd mewn gofal ac yn gadael gofal:

Mae'r Swyddfa wedi galw'n gyson am welliannau i'r gefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal. Yn 2016 fe wnaethon ni gyhoeddi [Y Gofal Cywir](#), adroddiad thematig ar hawliau plant mewn cartrefi gofal. Er bod llawer o bobl ifanc yn derbyn gofal da, roedd angen gwneud mwy i hybu a diogelu hawliau plant, megis cael mynediad i addysg a gweld eu teulu, gyda phlant yn wynebu risg uwch o fynd ar goll a chael rhybuddion a chyhuddiadau gan yr heddlu. Yn 2017, buon ni'n gweithio gydag ymadawyr gofal i gyhoeddi ein hadroddiad [Breuddwydion Cudd](#), oedd yn nodi beth roedd ymadawyr gofal eisiau ei gael i'w cefnogi i bontio'n llwyddiannus i oedolaeth.

Ar hyd y cynllun gwaith hwn, mae'r fîm wedi bod yn gweithio i ddilyn hynt yr argymhellion a wnaed yn y ddau adroddiad hyn, a dilyn hynt argymhellion yr adroddiad blynyddol gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus. .

### **Yn ystod y cyfnod hwn, rydyn ni wedi gweld rhai newidiadau cadarnhaol i bobl ifanc mewn gofal;**

- Ym mis Mawrth 2017, creodd Llywodraeth Cymru gronfa Dydd G yl Dewi;
- Datblygu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofal Preswyl;
- Mae Protocol i Leihau Troseddoli Diangen Pobl Ifanc â Phrofiad o Ofal.

### **Rydyn ni hefyd wedi derbyn ymrwymadau gan Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:**

- Dileu elw o wasanaethau gofal plant yn raddol;
- Datblygu Siarter Rhianta Corfforaethol, gyda chefnogaeth newidiadau statudol i ehangu'r dyletswyddau sydd ar gyfrif cyhoeddus;
- Sicrhau bod cefnogaeth Ymgynghorydd Personol hyd at 25 oed wedi'i sicrhau yn y ddeddfwriaeth yn 2022/23;
- Casglu data i ddeall graddfa a thueddiadau llety heb ei reoleiddio, gydag ymrwymiad i adolygu'r rheoliadau gyda golwg ar gryfhau'r amddiffyniadau i blant a phobl ifanc;
- Datblygu safonau cenedlaethol i roi sylw i bryderon ynghylch ansawdd, digonolrwydd ac addasrwydd llety lled-annibynnol.

Er bod ymrwymiad mor fentrus gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc yn 'radical' wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol, mae cyflymder cyflwyno camau i sicrhau'r pethau y dylai'r gr p hwn o bobl ifanc fedru eu hawlio wedi achosi rhwystredigaeth ar brydiau. Mae'r newidiadau wedi bod yn gronnol, ac er ein bod wedi cael ymrwymadau i gyflawni newid, nid ydym eto wedi gweld y newidiadau o ran ymarfer a chefnogaeth sy'n ofynnol i wella cyfleoedd bywyd pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ymhellach.

Gyda chynlluniau i ddatblygu Dulliau Gweithredu Dim Drws Anghywir ar draws ein gwasanaethau iechyd a chynlluniau i wella dull ysgol gyfan Cymru o ymdrin â iechyd meddwl, rydyn ni'n falch y bydd pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal hefyd yn elwa o'r dull newydd hwn o gael mynediad at gefnogaeth. Yn rhy aml rydyn ni wedi bod yn ymwybodol bod mynediad cyfyngedig i leoliadau daearyddol a llwybrau atgyfeirio i gael cefnogaeth.

Wrth symud ymlaen, mae'n hanfodol bod pob gwasanaeth cyhoeddus yn chwarae rôl weithredol yn cefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ac yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a all fodoli yn eu gwasanaethau eu hunain, fel bod pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael cyfle cyfartal i wneud yn fawr o'u galluoedd ac yn gallu cyflawni hyd eithaf eu potensial.

# Bod yn atebol i blant yng Nghymru

# 4

Mae'r gyfraith a sefydlodd y swydd yn datgan y dylai'r Comisiynydd ddiogelu a hybu hawliau a lles plant yng Nghymru. Rydyn ni'n credu, os yw'r Comisiynydd i fod yn bencampwr gwirioneddol i blant, bod rhaid iddi fod yn atebol i blant y wlad am y penderfyniadau a'r camau gweithredu a allai effeithio ar eu bywydau. Yn 2019, fe wnaethon ni gyflwyno'r uchelgeisiau canlynol, sef;

1

Bod ein Swyddfa yn esiampl o Ddull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant.

2

Sicrhau bod ein swyddfa mor hygyrch â phosibl i staff ac aelodau o'r cyhoedd.

3

Sicrhau bod ein paneli ymgynghorol, gan gynnwys ein panel pobl ifanc, yn cael effaith ystyrlon ar ein gwaith.

4

Sicrhau bod yr wybodaeth rydyn ni'n ei phrosesu yn cael ei rheoli'n gyfrifol.

5

Adolygu effaith ein cynllun tair blynedd cyntaf a chyhoeddi'r canfyddiadau.

Fe wnaethon ni gyflwyno hefyd ein huchelgeisiau o ran bod yn fwy atebol yn ein gwaith o ddydd i ddydd fel sefydliad cyhoeddus trwy gyflwyno cynlluniau i wneud y canlynol;

1

Gweithio gyda Senedd Ieuencid newydd Cymru i sefydlu mecanwaith i'r corff a etholwyd yn ddemocrataidd graffu'n flynyddol ar y Comisiynydd

2

Sicrhau bod ein gwaith cyfranogiad yn cael ei lywio gan Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru

3

Adrodd am ein gwaith, gan gynnwys ein gwaith ariannol a risgiau, i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'n paneli ymgynghorol bob chwarter

4

Gweithio mewn modd cynaliadwy, a cheisio gwreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ein hymarfer

5

Byddwn ni'n sicrhau ein bod yn cyflawni gwerth am arian ac yn ymrwymo i ddarparu amcangyfrifon tryloyw o'n hanghenion ariannol i Lywodraeth Cymru, ac yn sicrhau bod gennym fesurau rheoli cadarn yn fewnol





## Dyma sut rydyn ni wedi gweithio i gyflawni hyn.



### Bod yn Esiampol o Ddull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant

Yn ogystal â gweithio gydag ystod eang o sefydliadau cyhoeddus i helpu i ddatblygu eu dull seiliedig ar hawliau plant, rydyn ni hefyd wedi bod yn gweithio i gryfhau sut rydyn ni'n cynnal egwyddorion Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant.

#### • Gwreiddio

1. CCUHP yw'r sylfaen ar gyfer ein holl waith, ac rydyn ni'n parhau i ddylanwadu ar gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i fabwysiadu dull tebyg. Mae ein gwaith polisi a dylanwadu yn sicrhau bod cyfreithiau, polisiau ac ymarfer ar draws holl lefelau'r llywodraeth yng Nghymru yn diogelu hawliau plant.
2. Mae ein Polisi Cynllunio Strategol a'n Cynllun Strategol wedi'u seilio ar hawliau plant.
3. Mae pob disgrifiad swydd yn cyfeirio'n benodol at hawliau plant.
4. Mae fîm cyfranogiad penodol yn bodoli i hyrwyddo a gweithredu prosiectau sy'n mynd ati'n benodol i geisio gwranddo ar blant a phobl ifanc.

#### • Cydraddoldeb a Pheidio â Chamwahaniaethu

- Buon ni'n gweithio mewn partneriaeth ag YMCA i ddatblygu ac addasu ein hadnoddau i fod yn fwy hygyrch i blant ag anghenion dysgu;
- Fe wnaethon ni sicrhau Trwydded Widgit a hyfforddiant perthnasol, sy'n golygu bod modd i ni ddefnyddio'u symbolau cyfathrebu;
- Rydyn ni wedi ymrwymo i gynhyrchu fersiynau hygyrch o'n holl adroddiadau ac adnoddau;
- Rydyn ni wedi gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau fel Race Council Cymru, EYST, ac Anabled Cymru i gefnogi ac adolygu cyhoeddiadau.

#### • Grymuso

- Rydyn ni wedi datblygu cyfleoedd lleoliad gwaith gyda sefydliadau partneriaeth;
- Mae ein gwaith cyfathrebu yn canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant a rôl y Comisiynydd, fel bod y plant eu hunain yn gallu cael mynediad i wybodaeth sy'n eu galluogi i ddeall ac ymarfer eu hawliau.
- Mae ein panel ymgynghorol pobl ifanc yn galw'r Comisiynydd a'r swyddfa i gyfrif am gyflawni ein cynlluniau gwaith.
- Rydyn ni wedi creu cyfres o ddeunyddiau wedi'u teilwra i hybu ac annog gyrff cyhoeddus ar draws Cymru i fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant a buon ni'n cynnal sesiynau hyfforddi gyda channoedd.

#### • Cyfranogiad

Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o'r fîm o staff i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ym mhob cwr o Gymru. Gallwch ddarllen mwy am y gwaith ymgysylltu arwyddocaol mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn.

#### • Atebolrwydd

- Rydyn ni wedi gweithio gyda myfyriwr PhD o Brifysgol Caerdydd i werthuso effaith Y Ffordd Gywir, gan gynnwys ein gwaith yn fewnol ar gofleidio egwyddorion dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant. Cyhoeddir y cynnydd a wnaed yn erbyn ein cynllun strategol yn ein Hadroddiad Blynyddol, yn ogystal ag asesiad o'n perfformiad yn erbyn egwyddorion Y Ffordd Gywir.

## Coronafeirws a Ni

Bythefnos yn unig wedi i flwyddyn ein cynllun gwaith newydd gychwyn, roedd ein swyddfa ar gau, yn union fel swyddfeydd, ysgolion a cholegau ar draws y wlad, oherwydd pandemig byd-eang y Coronafeirws. Roedd ein cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn, fel bob blwyddyn, wedi dod o dan ddylanwad barn plant a phobl ifanc a'r bobl sy'n gofalu amdanynt nhw neu â gofal amdanynt, ac wedi cael ei lywio gan y farn honno. Fe ddewiswn ni gynnal ein cyfres wreiddiol o brosiectau a gynlluniwyd, yn ogystal ag addasu i ymateb i'r pandemig.

Ym mis Medi 2020 fe wnaethon ni gyhoeddi'r [adroddiad Coronafeirws a Ni](#) oedd yn cyflwyno ein hasesiad o waith y Llywodraeth i gynnal hawliau plant bryd hynny, ac yn amlinellu ein gwaith yn ystod pum mis cyntaf yr argyfwng. Ym mis Medi 2021 fe gyhoeddwn ni [Coronafeirws a Ni: 2il argraffiad Medi 2020-Medi 2021](#).

**Mae'r adroddiadau hyn yn cyflwyno ein hegwyddorion arweiniol ar gyfer ymateb i'r pandemig;**

1

Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn derbyn gwybodaeth a chyngor sy'n glir ac yn ddibynadwy;

2

Gwirio bod plant y gallai fod angen mwy o gefnogaeth arnynt nhw na'r lleill yn ddiogel ac yn cael beth mae arnynt nhw ei angen;

3

Gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael gwrandawriad;

4

Helpu'r llywodraeth a gwasanaethau eraill i glywed am brofiadau a barn plant a phobl ifanc ac ymateb iddynt nhw.

## Ein Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc

Mae'r panel ymgynghorol pobl ifanc wedi parhau i ddatblygu a ffynnu, eleni i 47 o aelodau, ar ôl recriwtio a hyfforddi 25 o aelodau newydd yn gynharach eleni.

Mae'r panel hefyd wedi llwyddo i symud o dri chyfarfod wyneb yn wyneb diwrnod o hyd y flwyddyn i ddigwyddiadau misol ar-lein, fel bod gennym ni ffynhonnell gyfoethog o farn a safbwyntiau am faterion cyfredol sy'n effeithio ar bobl ifanc yng Nghymru.

Mae'r panel wedi helpu gyda'r canlynol;

- Cyfweiliadau cyfryngau;
- Cynhyrchu ymgynghoriadau, gan gynnwys eu hymateb eu hunain i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb;
- Helpu i hwyluso digwyddiadau, megis cadeirio'r Seminar Hawliau Plant ym maes Cyfiawnder Ieuencid;
- Cwrdd â Gweinidogion Llywodraeth Cymru i drafod pryderon ynghylch y newid yn yr hinsawdd, mesurau'r Coronafeirws ac arholiadau;
- Dylunio a chyflwyno ein harolwg mwyaf erioed, [Coronafeirws a Fi](#).

## Byddwn ni'n sicrhau bod ein swyddfa mor hygyrch â phosibl i aelodau staff a'r cyhoedd.

- Mae ein holl waith cyfranogiad wedi'i seilio ar Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru.
- Daethon ni'n Gyflogwr Ymrwymedig Hyderus o ran Anabled.
- Fe sefydlon ni grŵp prosiect cydraddoldeb mewn ymateb i'r symudiad Mae Bywydau Du o Bwys (BLM), ac mewn ymgais i gymryd camau ymlaen i gynyddu amrywiaeth ein sefydliad a'n cyrhaeddiad. Mae cynllun gweithredu'n cael ei lunio, ac mae ymrwymiad cyhoeddus ar y gwaith hwn wedi cael ei gyhoeddi.

### • Symud Swyddfa

Y cam mwyaf arwyddocaol at wneud ein swyddfa'n hygyrch oedd y penderfyniad yn ystod y cyfnod hwn i symud ein pencadlys. Mae ein llety newydd ym Mhort Talbot yn ein galluogi i fod mewn lleoliad gwych o ran ymsefydlu fel hwb sector cyhoeddus gwirioneddol yng nghanol Port Talbot. Rydyn ni mewn adeilad cynaliadwy, sy'n hygyrch i bawb trwy seilwaith trafniadaeth gyhoeddus cadarn, ac mae'n lle modern, addas i'r staff. Mae'r symudiad hefyd wedi creu, ar gyfartaledd, arbedion o £20,000 y flwyddyn o ran trethi busnes a chost y rhent.

### • Grŵp Llesiant

Yn 2019, fe gymeron ni gamau fel sefydliad tuag at fod yn sefydliad Amser i Newid Cymru. Fel rhan o hyn, fe sefydlon ni grŵp o Hyrwyddwyr Llesiant – gwirfoddolwyr ar draws y sefydliad sy'n dod at ei gilydd i drafod llesiant yn y gweithlu a dosbarthu syniadau a mentrau i gefnogi'r fîm. Gallwch chi ddarllen mwy am yr Hyrwyddwyr Llesiant [yma](#).

## Gwella ein hatebolrwydd.

### • Trafod gwybodaeth

Bu'r holl staff yn mynychu sesiynau hyfforddi gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO); Rydyn ni'n aelodau o'r rhwydwaith swyddogion diogelu data ac yn gweithio tuag at achrediad Cyber Essentials Plus er mwyn sicrhau bod y systemau sydd gennym yn eu lle i ddiogelu ein data mor gadarn â phosibl. Fe gawson ni un achos o dorri diogelwch data yn 2020-21 ac un arall yn 2021-22, adroddwyd y ddau i'r ICO, ac nid oedd angen cymryd camau pellach. Adroddwyd am y ddau yn ein hadroddiadau blynyddol.

- Gallwch chi ddarllen mwy am sut rydyn ni'n adrodd am werth am arian ar dudalen XXX yn 'Tu ôl i'r Cynllun'
- Yn ein hadroddiadau blynyddol rydyn ni'n darparu diweddariadau cynhwysfawr ynghylch sut rydyn ni'n cyflawni dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a Safonau'r Gymraeg, a gallwch chi ddarllen am hynny i gyd [yma](#).
- Daliwyd ati i gwrrdd bob chwarter gyda'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, a llwyddwyd i recriwtio aelodau newydd ychwanegol anweithredol. Parhaodd y cyfarfodydd gyda'n panel ymgynghorol o oedolion, ac fe wnaethon ni gynyddu amlder ein cyfarfodydd gyda'n panel pobl ifanc yn ystod y pandemig.
- Yn 2019-20, fe gyhoeddwn ni ein gwerthusiad o'n Cynllun Tair Blynedd cyntaf, 2016-19. Gallwch chi ddarllen yr [adroddiad yma](#).

## Gwreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

• Fel aelod o Banel Ymgynghorol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chorff cyhoeddus yng Nghymru, mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i'r egwyddorion a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a
- Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae'r Comisiynydd hefyd yn ymroddedig i leiafu effaith ei sefydliad ar yr amgylchedd, fel y nodir yn ein [Strategaeth Bioamrywiaeth](#).

Rydyn ni hefyd yn ceisio adborth gan staff yn ystod ein harolwg staff ar sut rydyn ni'n gweithio fel tîm tuag at saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn yr arolwg staff diweddaraf (Rhagfyr 2021),

**95%**



Roedd 95% o ymatebwyr yn cytuno ein bod yn gwrandao ar wahanol grwpiau o blant a'r oedolion sy'n eu cefnogi, a'n bod ni'n gweithio ar y pethau sy'n bwysig iddyn nhw

**95%**



Mae 95% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant ein bod ni'n sicrhau bod lleisiau plant yn ganolog i bopeth a wnawn

**90%**



Mae 90% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant ein bod yn cydbwysu gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag eraill i gyflawni ein nodau, ochr yn ochr â diogelu ein hannibyniaeth

**81%**



Mae 81% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant bod ein gwaith yn canolbwyntio ar alluogi pob plentyn i gyflawni ei botensial

**71 %**



Mae 71% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant yn ein bod yn arddangos gwelliant parhaus yn ein gwaith, ar sail adfyfrio rheolaidd ac adolygiad beirniadol

**90%**



Mae 90% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant ein bod yn rhagweithiol yn ein defnydd a'n datblygiad o'n sgiliau Cymraeg yn y gweithle

**81%**



Mae 81% yn cytuno neu'n cytuno'n bendant bod ein polisiau gweithlu yn coffleidio amrywiaeth ac yn ein helpu i ddeall materion i wahanol grwpiau

**Mae mwy o wybodaeth am  
waith y Comisiynydd ar y wefan:  
[www.complantcymru.org.uk](http://www.complantcymru.org.uk)**

**Cysylltwch:  
01792 765600  
[post@complantcymru.org.uk](mailto:post@complantcymru.org.uk)  
[@childcomwales](https://twitter.com/childcomwales)**